# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 498 · Ebrill 2019 · 50c**

# Dyffryn Ogwen = Dyffryn Gwyrdd

Mae effeithiau newid hinsawdd, fel y gwyddom, yn broblem sydd yn cael ei drafod ar draws y byd, ac mae yna bryderon ynglŷn a sut fath o fyd fydd ar gyfer ein plant a phlant ein plant os na ellir datrys y broblem o gynhesu byd-eang. Mae yma amryw yn Nyffryn Ogwen yn bryderus hefyd ac yn awyddus i wneud cyfraniad, boed fawr neu fach, tuag at wella'r sefyllfa.

Mae Partneriaeth Ogwen yn ceisio arwain ar y mater hwn, a gyda hyn mewn golwg byddant yn agor Canolfan Dyffryn Gwyrdd ar Stryd Fawr Bethesda yn fuan. Amgaewn ddatganiad a dderbyniwyd gan y Llais oddi wrth Meleri Davies, Prif Weithredwr Partneriaeth Ogwen:

"Gyda chymorth grant gan Llywodraeth Cymru a benthyciad trwy Gronfa Benthyciadau Cyngor Gwynedd, mae Partneriaeth Ogwen wedi prynu 27 Stryd Fawr Bethesda i'w ddatblygu fel canolfan i brosiectau amgylcheddol a chynaladwyedd. Bydd staff Ynni Cymunedol Cymru a Chyd Ynni yn cael eu lleoli yng nghanolfan 'Dyffryn Gwyrdd' a bydd gofod 'hotdeskio' i fudiadau eraill yn ôl y galw. Y bwriad yw datblygu'r ganolfan yn lle sy'n gallu darparu cyngor i'r cyhoedd am brosiectau cynaladwyedd, arbed ynni a chyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn yr ardal. Mae Partneriaeth Ogwen ar hyn o bryd yn ymgeisio am grantiau pellach i ddatblygu'r ganolfan a phenodi Swyddog Cynaladwyedd i ddatblygu'r gwaith hwn a gobeithiwn gael y drysau ar agor erbyn mis Mai. I gyd-fynd gyda'r gwaith hwn, mae'r Bartneriaeth wedi llythyru'r 3 Chyngor Cymuned i'w annog i ddilyn esiampl Cyngor Gwynedd trwy alw argyfwng newid hinsawdd. Rydym hefyd yn gweithio ar brosiect cludiant cymunedol trydan ar y cyd â Chyfeillion y Ddaear a chydweithio â chynllun ECCO ac Ynni Ogwen ar brosiect Heuldro Ogwen, sef cynllun i osod paneli solar ar adeiladau cymunedol yn y dyffryn."

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Meleri 01248 602131.




Swyddfa Partneriaeth Ogwen ar y dde. Canolfan Dyffryn Gwyrdd ar y chwith.



Beca Roberts, Swyddog Aelodaeth a Chyfathrebu Ynni Cymunedol Cymru, fydd un o'r rhai cyntaf i gychwyn gweithio yng Nghanolfan Dyffryn Gwyrdd.

## Darlith Goffa Dafydd Orwig 2019

### Nos Lun, 3 Mehefin

am 7.30 o'r gloch
yn Llyfrgell Gymunedol Bethesda

**DARLITHYDD:**
Dr John Ll. W. Williams

**TESTUN:**
'J.O., J.J., J.Glyn a Jennie'

Dan nawdd Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd a chyda chydweithrediad Partneriaeth Ogwen

Llais Ogwan

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Neville Hughes.

Y golygydd ym mis Mai fydd
Lowri Roberts,
8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth, Bangor,
LL57 4NY.
01248 600490
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 1 Mai** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 16 Mai,** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

## Dyddiadur y Dyffryn

**Ebrill**

20 Prynhawn Hwyl Eglwys St. Cedol. Canolfan Glasinfryn am 1.30.
26 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda. 1.15 – 2.30.
27 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

**Mai**

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Ffotograffiaeth. Cefnfaes am 7.00.
02 Darlith Plas Pentir gan Cynrig Hughes. Neuadd Bentref Rhiwlas am 7.00.
04 Bore Coffi NSPCC. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
08 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
09 Gwibdaith Cymdeithas Jerusalem.
10 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda. 1.15 – 2.30.
11 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Cefnfaes. 9.00 - 12.00.
13 Merched y Wawr Tregarth. Sgwrs gan Meic Griffiths. Festri Shiloh am 7.30.
16 Noson Casglu a Dosbarthu'r Llais. Cefnfaes am 6.45.
18 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
19 Cymanfa Ysg. Sul Annibynwyr Bangor a Bethesda. Bethlehem Talybont. 10.30yb
20 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
25 Garddwest Eglwys Sant Cedol yn y Ficerdy, Pentir am 1.30.

**Archebu trwy'r post**

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

DILYNWCH NI AR TRYDAR

# Gardd Gymunedol Capel Jerusalem



Ymunodd gwirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen ag aelodau Capel Jerusalem i blannu 16 o lwyni yn y llecyn o flaen y capel. Wrth dyfu bydd y rhain yn ffurfio gardd gymunedol brydferth yng nghanol Bethesda, i'w mwynhau gan bobl leol ac ymwelwyr. Bydd hefyd yn gefndir deniadol i'r gofeb rhyfel.

Dyma ail ran o brosiect a ariannwyd gan grant o £600 gan Loteri Cod Post y Bobl (PPL) i harddu'r Dyffryn. Yn y rhan gyntaf, prynodd Balchder Bro fylbiau cennin pedr ac aeth y gwirfoddolwyr ati yn ystod hydref y llynedd i'w plannu ledled y Dyffryn.

Mae'n braf gweld ffrwyth eu llafur rŵan wrth i ni weld y blodau hyfryd yn blodeuo mewn gwahanol leoliadau ym Methesda, Rachub, Tregarth, Mynydd Llandygai, Talybont, ar hyd Lôn Las Ogwen ac wrth ymyl yr A5 ger Llys y Gwynt. Cafodd rhai eu plannu gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn nhiroedd yr ysgol ac mae'r rhain hefyd wedi gwneud sioe arbennig.

Dywedodd Paul Rowlinson, Ysgrifennydd Balchder Bro: "Rydym yn ddiolchgar iawn i Loteri Cod Post y Bobl am y grant i ariannu'r prosiect ac i'r holl wirfoddolwyr am roi o'u hamser i harddu'r dyffryn."

# Tîm pêl-droed Llandygái 1911/12

Yn dilyn cyhoeddi lluniau o dïm pêl-droed Llandygái 1911/12 yn rhifynnau Ionawr a Mawrth o'r Llais, derbyniwyd gwybodaeth am un arall o'r chwaraewyr gan Ken Pritchard Brown o'r Felinheli (gynt o Gae Gwigin yn Nhalybont). Taid Ken, sef Richard Griffith, Fern Cottage, Llandygai, sy'n dal y ci (masgot) yn yr ail lun a ymddangosodd yn rhifyn mis Mawrth, ac ef yw'r gŵr ar y dde i'r gôlgeidwad yn y rhes gefn yn y llun cyntaf a gafodd ei gyhoeddi yn rhifyn Ionawr o Llais Ogwan. Nid oedd Ken yn adnabod yr un o'r chwaraewyr eraill yn y lluniau. Dywedodd hefyd bod ganddo grys pêl-droed ei daid yn ei feddiant o'r cyfnod y bu'n chwarae i dïm pêl-droed Llandygái yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Gyntaf. Diolch am gysylltu Ken!

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

**CHRIS GRIFFITHS**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £350.00 | Cyngor Cymuned Llandygai. |
| £100.00 | Arthur a Nerys Rowlands, Cefnddwysarn, Y Bala. |
| £40.00 | Steffan Roberts, Pen y Ceunat Isaf, Llanberis. |
| £14.50 | Hugh Grifith, Llanfairpwll. |
| £11.00 | Di-enw, Braichmelyn. |
| £10.00 | Muriel Williams, Brynteg, er cof am Eric Iolen Williams. |

**Diolch yn fawr.**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

***Gwobrau Ebrill***

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (121) | Beryl Williams, Allt Pen y Bryn, Bethesda. |
| £20.00 | (93) | Karen Aston, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 | (182) | Dafydd Morris, Garnedd Uchaf, Bethesda. |
| £5.00 | (22) | Don Hughes, Halifax. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

## Cyfaill i'r Llais

Dros y blynyddoedd mae Steffan Roberts, Pen y Ceunant Isaf, Llanberis, wedi cefnogi'r Llais mewn gwahanol ffyrdd. Ym mis Mawrth cawsom rodd o £40.00 ganddo, ynghŷd â nifer o nwyddau a gwobrau raffl. Hyn yn dilyn Noson Lawen Caws a Gwin yng Nghaffi Pen y Ceunant, a gynhaliwyd er cof am Heather Young, yng nghwmni llawer o'i ffrindiau. Mae Llais Ogwan yn ddiolchgar iawn i ti am dy gefnogaeth Steffan!

# Ysgol Llanllechid




**Eisteddfodau'r Urdd**

Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd ran yn Eisteddfodau yr Urdd. Dyma'r canlyniadau llwyfan i chi. Pob dymuniad da i Gwenno Beech a'r Cor Cerdd Dant a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ysgol Llanlelchid yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau hefyd i Adran yr Urdd, Dyffryn Ogwen ar eu llwyddiant hwythau a phob dymuniad da i'r Parti Cerdd Dant a Pharti Unsain yng Nghaerdydd.

*Canlyniadau Llwyfan Ysgol Llanllechid yn Eisteddfod Sir yr Urdd*
Gwenno Beech 2ail, Unawd Bl 3 & 4
Parti Chenai 2ail, Ensemble Lleisiol
Gruffydd Beech, 3ydd Llefaru Bl 3 & 4
Parti Mali Fflur, 3ydd Grwp Llefaru
Harri Morgan Bale, 2il Unawd Pres
Gwenno Beech, 1af Unawd Cerdd Dant Bl 3/4
Gruffydd Beech, 2il Unawd Cerdd Dant Bl 3/4
Parti Chenai, 2il Parti Cerdd Dant
Gwenno Beech, 1af Llefaru Bl 3 & 4
Côr Ysgol Llanllechid, 1af Côr Cerdd Dant

**Gwersi Drymio**

Cyrhaeddodd set o ddrymiau newydd yr ysgol! A phwy well i roi gwersi na tad Sion, Mr Dylan Edwards. Diolch yn fawr i chi am y gwersi drymio o dan y goeden geirios!



**Dawnsio Disgo**

Llongyfarchiadau i'r dawnswyr disgo ar eu perfformiad gwych yn yr Eisteddfod Ddawns yng Nghricieth. Da iawn Mia, Hannah, Ffion, Maya, Siôn, Osian, Erin, Hana, Elan, Evie, Chenai, Emily a Chloe. Diolch i Ms Kathryn am eu hyfforddi ac i Ms Lliwen am ei help! Llongyfarchiadau hefyd i Gwenno, Cadi, Effy, Angharad.a Llinos fu hefyd yn dawnsio disgo.

**Caneuon Cymraeg Poblogaidd a Chreu Ynni**

Er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion mewn cerddoriaeth Gymraeg poblogaidd, cafwyd gweithdy byrlymus i holl ddisgyblion yr ysgol yn y neuadd. Meddai Aled, oedd yn arwian y gweithdy: *"Gwefreiddiwch ar egni a staff a disgyblion Ysgol Llanllechid!! Roedd ymateb y disgyblion yn anhygoel, a bwrwlm yr ysgol yn fendigedig*!" Cafwyd diwrnod o wrando, pleidleisio a chyd-ganu caneuon Cymraeg gan grwpiau ac unigolion e.e. Maharishi, Dafydd Iwan, Bryn Fôn, Candelas, Celt, Welsh Whisperer, 9Bach ac Yws Gwynedd a mwy. Cafwyd hefyd gyfle i feicio, a thrwy hynny, creuwyd ynni i gynhyrchu'r goleuadau llachar a'r sain! Dyna i chi beth ydi Ysgol Eco, ac ysgol sy'n trwytho'r disgyblion yn ein diwylliant!

**Taith i'r Ysgwrn a Byd Mari Jones**

Yma'n Ysgol Llanllechid rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn rhoi'r cyfle i'n disgyblion i ddysgu a gwerthfawrogi hanes Cymru. Yn ystod y tymor hwn mae Blwyddyn 6 yn dilyn thema Breuddwydion a phenderfynwyd mynd i'r Ysgwrn a Byd Mari Jones. Cafwyd croeso cynnes yn Yr Ysgwrn a mwynhaodd y disgyblion ddysgu am hanes y bardd enwog a chael adrodd barddoniaeth megis Dim ond Lleuad Borffor a'r Rhyfel. Roedd hi'n brofiad cael gweld Cadair Ddu Penbedw a dysgu'r hanes. Yng Nghanolfan Mari Jones, bu'r disgyblion yn dysgu am ei hanes a sylweddoli ei bod yn wraig oedd wedi gwireddu ei breuddwyd. Wrth fod â breuddwyd ac uchelgais, cafwyd Beibl i Bawb o Bobl y Byd. Mae'r disgyblion yn sylweddoli pa mor bwysig yw breuddwydio a chael uchelgais mewn bywyd – a bod unrhyw beth yn bosib!

**Cân Actol Ysgol Llanllechid**

Cafwyd Can Actol wreiddiol, wych! A'r plant ar eu gorau ar lwyfan yr Eisteddfod Symudol yn Ysgol Dyffryn Ogwen! Rydym i gyd yn falch iawn ohonoch. Bydd cyfle i drigolion yr ardal weld y gan actol a llawer mwy mewn Cyngerdd Mawreddog gan Ysgol Llanllechid yn fuan! Croeso i bawb! Manylion i ddiyn! Bydd elw'r cyngerdd hwn yn mynd tuag at gronfa elusen ar gyfer plant sy'n ymdopi â gwaeldd yn Ysgol Llanllechid. Diolch i Mrs Marian Jones, i Mrs Llinos Wilson, Mrs Delyth Humphreys, Ms Rhian Haf, Ms Gwen Elin a Ms Angharad Llwyd am eu gwaith. Cafwyd cyfanwaith hwyliog, llawn bwrlwm, gyda neges gref, gyfoes ynglŷn â'r angen i ddiogelu ein henwau traddodiadol, cyfoethog.

**Ysgol Arweiniol Greadigol**

Braint yw croesawu Anwen Burgess atom fel ysgol i ddatblygu gwaith yr ysgol ymhellach yn nghyd destun yr Ysgol Arweiniol Greadigol. Mae'r disgyblion yn ymwneud â llu o sgiliau gan ddatblygu eu gallu creadigol ar draws gwahanol feysydd. Dyma nhw yn gwenud pypedau.

**Te Bach Cymreig**

Daeth rhieni disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn eu tro i fwynhau adloniant gan y plantos oedd yn cynnwys, adrodd barddoniaeth, dweud storiau, canu a dawnsio gwerin. Bu'r plantos yn paratoi yn ddyfal gan greu bwydlenni, gwahoddiadau a threfnu'r adloniant! Llawer o ddiolch i bawb ohonoch a ddaeth yma atom i fwynhau'r wledd i'r llygad a'r stumog!

**Chwareli**

Wrth astudio gwahanol chwareli, penderfynodd disgyblion dosbarth Mrs Marian Jones fynd i Flaenau Ffestiniog i gael crwydro yn y Ceudyllau Llechi, ac i

Chwarel y Penrhyn i weld mangre gwaith eu cyn-deidiau, cyn craffu ar y Weiren Wîb. Cafwyd diwrnod i'w gofio!

**Bingo Pasg**
Diolch yn fawr i bawb a ddaeth draw i'r Clwb Criced i gefnogi ein Bingo Pasg. Cafwyd noson hwyliog lle roedd llu o wyau Pasg o bob lliw a llun i'w hennill. Diolch i'r pwyllgor gweithgar, o dan gadairyddiaeth Angharad Llwyd Beech am eu holl waith paratoi. Codwyd swm o £474 i gronfa'r ysgol. Diolch i chi i gyd.

**Ffilm**
Mae disgyblion dosbarth Ms Gwenlli Haf wedi bod yn brysur yn creu ffilm ar themau Ysgol Werdd gyda Judith, Llinos a Cynan o Bartneriaeth Ogwen. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y cyfanwaith hwn!

**Dafydd ap Gwilym**
Braint oedd croesawu Dafydd ap Gwilym i'n hysgol! Dysgwyd llawer amdano, sef mai ef oedd un o feirdd pwysicaf Ewrop yn ei gyfnod. Yn ôl pob tebyg, bu farw o'r pla du yn 1380. Roedd yn fab i Gwilym Gam ap Gwilym ap Einion. Erbyn hyn rydym yn gwybod yn dda am ei gerdd Trafferth Mewn Tafarn.

**Pob Lwc**
Pob dymuniad da i deulu Ela a Lili yn yr Almaen. Byddwn yn cadw mewn cysyltiad agos hefo chi.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Mrs Nerys Tegid sydd wedi colli 'taid' sef Mr Sam Jones yn ddiweddar yn gant a phedwar. Rydym wedi clywed amdano yn ei ieuenctid yn marchogaeth ei geffyl dros y Berwyn i gwrdd a'i gariad. Dyn rhyfeddol. Anfonwn ein cofion cynnes atoch fel teulu.

## gair neu ddau

John Pritchard

# Cododd Crist

Mae Sul y Pasg (ar Ebrill 21ain) yn hwyr eleni, dair wythnos yn hwyrach na'r llynedd. Yr hwyraf y gall fod yw Ebrill 25ain. Unwaith yn unig o hyn i ddiwedd y ganrif (yn y flwyddyn 2038) y bydd y Pasg ar y dyddiad hwnnw, a dim ond pedair gwaith arall y bydd yn hwyrach nag ydyw eleni (ddwywaith ar yr 22ain o'r mis, ac unwaith ar y 23ain a'r 24ain).

Mae yna fanteision ac anfanteision i Basg hwyr. Un fantais yn y rhan hon o'r byd yw bod gobaith am well tywydd at ddiwedd Ebrill; mae gwyliau Pasg a thywydd braf yn gyfuniad hyfryd. Anfantais yw bod peryg i 'golli' wythnosau; gall Pasg hwyr er enghraifft, ddrysu pobl sy'n wynebu arholiadau, wrth i'r rheiny ddod yn gynharach na'r disgwyl.

Y Sul sy'n dilyn y lleuad lawn cyntaf ar ôl cyhydnos y gwanwyn yw Sul y Pasg. Un peth yr wyf newydd sylwi arno yw na all y Pasg fod yn *hwyrach* ddwy flynedd yn olynol, er y gall fod yn *gynharach* ddwy flynedd yn olynol (ond nid mwy na dwy chwaith). Ond da chi, peidiwch â disgwyl i mi egluro hynny i chi! Mae'n rhy gymhleth o lawer i mi. Ond diolch am hynny, does dim rhaid deall cymhlethdod dyddiad y Pasg: dim ond derbyn y dyddiad a chadw a dathlu'r Ŵyl sydd ei angen.

Does dim rhaid deall digwyddiad canolog Sul y Pasg chwaith. Pwy all egluro'r atgyfodiad? Pwy all esbonio sut y gallai Iesu Grist, a fu farw ar groes ac a gladdwyd mewn bedd, ddod yn ôl yn fyw? Mae'r atgyfodiad yn amhosibl. Wrth gwrs ei fod. Nid yw'r meirw yn codi o'r bedd. Nid dyna'r drefn naturiol o gwbl. Ond neges Iesu oedd, 'Y mae'r hyn sy'n amhosibl gyda dynion yn bosibl gyda Duw' (Luc 18:27). Ac y mae hynny'n sicr yn wir am ei atgyfodiad, oherwydd o fewn tridiau i'w farwolaeth a'i gladdedigaeth daeth Iesu yn ôl yn fyw. Claddwyd ei gorff, ond daeth bywyd yn ôl i'r corff hwnnw a chododd Iesu o'r bedd. Nid ydym fel Cristnogion yn honni ein bod yn deall hyn, ond yr ydym yn ei gredu a'i gyhoeddi. Ac nid yn unig cyhoeddi atgyfodiad Iesu a wnawn, ond cyhoeddi hefyd y cawn ninnau ryw ddydd ein hatgyfodi. Oherwydd 'y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno' (1 Corinthiaid 15:20). Gobaith mawr y Ffydd Gristnogol yw nid yn unig fod ein heneidiau yn mynd i'r nefoedd ond yr atgyfodir ein cyrff hefyd ryw ddydd, fel y byddwn – gorff ac enaid – gyda Duw am byth. Dyma neges yr Eglwys Gristnogol y Pasg hwn eto, a gallwn gyhoeddi'r neges hon yn hyderus am ein bod yn credu Iesu pan ddywed, 'Gyda Duw, y mae pob peth yn bosibl' (Mathew 19:26).




C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Nodyn gan Bwyllgor Llais Ogwan**
Ymddiheurwn fod dryswch wedi digwydd gyda chynnwys newyddion Tregarth yn rhifyn mis Mawrth o'r Llais. Mae'n flin iawn gennym os achoswyd unrhyw ofid i'n darllenwyr.

**Hyfforddiant Diffibriliwr – Dyddiad Newydd**
Yn ystod mis Chwefror, gosodwyd diffibriliwr ar y Ganolfan gan elusen 'Achub Calon y Dyffryn' a cafodd ei ariannu gan Gyngor Cymuned Llandygai. Mae'r hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r diffibrilliwr yn y Ganolfan wedi newid i nos Fercher, 29ain o Fai 19.00 – 21.00. Dewch i weld sut i ddefnyddio eich diffibriliwr lleol, mae'r sesiwn ar agor i drigolion lleol, croeso i bawb.

**Profedigaeth**
Trist yw cyhoeddi marwolaeth Valmai Evans, Bryn Cul, Tregarth, fu farw yng Nghartref Nyrsio Ceris, ym Mangor lle bu'n llesg ei hiechyd ers naw mlynedd. Bu ei hangladd yng Nghapel Shiloh ac yn yr Amlosgfa ym Mangor. Anfonwn ein cydymdeilad gyda Robin ac Ann Catrin, ei hwyrion, ei merch yng nghyfraith a'i chwaer yng nghyfraith, sef Janet Williams, Chwarel Goch Isaf a'r holl deulu.

Ar Fawrth 22 bu farw Rita Malinda Hayward, Awel Dêg, Tregarth yn 75 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i phlant Keith ac Anthea, gyda'i chwaer Helena, Pen y Bronnydd, Tregarth a'r teulu i gyd yn eu galar.

**Gofalwr ar y teledu**
Bu rhaglen ardderchog ar y teledu ar ddiwedd Mis Mawrth yn olrhain bywyd gŵr ifanc Awtistig o Ynys Môn. Un o'i ofalwyr oedd Stephen Williams, Foelas, Tregarth. Llongyfarchiadau i ti a mawr ddiolch am dy waith clodwiw. Roeddan ni i gyd fel ardal yn falch iawn ohonat ti.

**Capel Shiloh, Tregarth**
Bydd y gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Ebrill 14: Oedfa Deulu Sul y Blodau-ieuenctid gyda Rhian Evans-Hill yn arwain.
Ebrill 21: Gwynfor Williams, Caernarfon
Ebrill 28: Trefniant Lleol
Mai 5: Richard Gillion
Mai 12: Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol gyda Gwynfor Williams
Mai 19: Ffion Rowlinson
Mai 26: Gwyndaf Jones, Bangor

*Colli aelod*
Bu farw un o aelodau'r capel, sef Valmai Evans, Bryn Cul. Er and oedd Valmai wedi bod yn rhan o'r gynulleidfa ers blynyddoedd oherwydd afiechyd blin daeth adre i Shiloh ar gyfer ei hangladd dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams a'r Parchedig Richard Gillion. Anfonwn ein cofion fel cynulleidfa at Robin a'r teulu yn y Gerlan ac at Ann Catrin a'i mab yng Nghaernarfon.

*Drws Agored*
Bob bore Gwener, rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd bydd drysau Shiloh ar agor ar gyfer cwmni, paned a sgwrs. Trowch i mewn rhyw fore Gwener, mae na griw hwyliog yn barod i'ch croesawu.

*Ar deledu a radio*
Bu dwy o aelodau ffyddlon Capel Shiloh yn siarad ar y cyfryngau yn ystod Mis Mawrth. Llongyfarchiadau i Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm a Helen Wyn, Bro Derfel. Sgwrsio gydag Elin Fflur ar y rhaglen deledu 'Heno' roedd Eirwen a chael cyfle i weld y gwaith cerfiedig manwl a diddorol ar lechen fawr o gwmpas y lle tân yn Tyddyn Dicwm.

Clywsom lais Helen Wyn, neu Tammy Jones, ar raglan Dewi Llwyd ar fore Sul. Roedd yn dathlu ei phenblwydd yn ystod yr wythnos honno a difyr oedd ei chlywed yn sôn am ei gyrfa gerddorol ar draws y byd yn dilyn ei llwyddiant ar y rhaglen Opportunity Knocks gyda Hughie Green. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

**Eglwys y Santes Fair**
*Gwasanaethau*
Ebrill 21: Cymun Pasg. (9.00yb)
Ebrill 28: Cymun Bendigaid.
Mai 5: Boreol Weddi.
Mai 12: Cymun bendigaid.
Mai 19: Boreol Weddi
(Gwasanaethau am 9.30yb oni nodir yn wahanol.)

Ar Sul y Mamau cafwyd gwasanaeth ar y cyd pan groesawyd cynulleidfaoedd eraill atom. Dyma'r gwasanaeth cyntaf i'r Parchedig John Mathews wedi iddo fo â'i briod ddychwelyd o'u gwyliau yn Seland Newydd. Edrychwn ymlaen at gael yr hanes ganddyn nhw eto!

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn Festri Capel Shiloh.

Croesawyd pawb i'r gangen a chydymdeimlwyd gyda rhai oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Bu farw un o aelodau cyntaf y gangen, sef Valmai Evans, Bryn Cul, mewn cartref nyrsio ym Mangor ac anfonwyd cofion at ei phlant Robin ac Ann Catrin a gweddill y teulu. Cydymdeimlwyd hefyd gyda Alwenna Puw a'r teulu yn eu profedigaeth fawr ac annisgwyl o golli eu mab hynaf Meuryn yn Sbaen. Daeth profedigaeth i ran Val Hayward a'r teulu gyda marwolaeth chwaer yng nghyfraith Val, sef Malinda Hayward.

Croesawyd Ann Jones o Dalwrn atom i adrodd stori ddiddorol Agnes Hunt a Robert Jones, Sylfaenwyr Ysbyty Gobowen yn y 1920au. Cydnabyddir Agnes Hunt fel y nyrs orthopaedig gyntaf yn y byd a Robert Jones fel prif arloeswr orthopaedig fodern. Roedd yn ddiddorol deall bod Robert Jones yn hannu o linach Meddygon Esgyrn Mon ac am ddylanwad ei ewyrth Hugh Owen Thomas, a ddaeth i amlygrwydd fel dyfeisiwr y 'Thomas Splint'. Diolchwyd iddi am ei sgwrs hynod ddiddorol ac am godi ein hymwybyddiaeth o hanes Ysbyty Gobowen sydd wedi cyffwrdd bywydau cymaint o Gymry dros y blynyddoedd.

Diolchwyd i Ann gan Allison Carden.

Bydd cyfarfod nesa y gangen Nos Lun, Mai 13 pan ddaw Meic Griffiths i son am ei waith gwirfoddol a hynny am 7.30 yn Festri Capel Shiloh. Croeso i bawb.

**Clwb Cant CanolfanTregarth**
Enillwyr mis Mawrth
£15.00 – Anna Jones
£10.00 – Gomer Davies
£5.00 – Ann Davies

**Diolchiadau**
Hoffai Angharad a Gerallt, Ffordd Tanrhiw, a'r teulu ddiolch i staff Plas Ogwan am eu gofal caredig o fam Gerallt, sef Mrs. Megan Williams, Gerlan.

Hefyd, diolch i ofalwyr Len yn ei gartref yn y Gerlan.

Diolch am wneud eu bywydau nhw, a hefyd eu teulu, gymaint haws yn eu dyddiau olaf!

Dymuna Adrian a Mandy, Garw Ganol, ddiolch o waelod calon i drigolion y fro am yr haelioni a ddangoswyd tuag at eu mab, Morgan, yn ystod bore coffi a gynhaliwyd yng Nghaffi Coed y Brenin yn ddiweddar. Diolch arbennig i Karen Aston a staff y caffi. Casglwyd cyfanswm terfynol o £863.00 er budd Morgan.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Diolch**
I Gyngor Cymuned Llandygai am hysbysfwrdd newydd i'r pentref . Mae wedi ei leoli wrth fynediad yr Ysgol, a'r goriad ar gael yn yr Ysgol.

**Penblwydd**
Dathlodd Robin Jones, Rhif 14 yn y pentref ei benblwydd yn 95 ar Fawrth 20ed.Yn anffodus, ar ôl hynny bu raid iddo dreulio penwythnos yn Ysbyty Gwynedd am brofion . Pawb yn dymuno gwellhad buan ichi Robin.

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
*Stondin Ysbyty Gwynedd*
Diolch i'n holl wirfoddolwyr am eu hamser a'u hegni yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 25ain. Codwyd elw o dros £131 i Gronfa Atgyweirio'r Eglwys. Diolch hefyd i ymwelwyr a staff yr ysbyty am eu haelioni.

*Cwrs Garawys*
Cynhelir cyfres o fyfyrdodau i astudio'r Garawys ar Ebrill 3, 10, 17 am 2.00 y prynhawn yn Eglwys St Mair Tregarth. Croeso i bawb o Fro Ogwen.

*Festri Pasg 2019*
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys St Tegai ar Ebrill 14eg am 12.15 h.y. yn syth ar ôl y gwasanaeth arferol. Croeso i bawb o'r gynulleidfa.

*Cydymdeimlo*
Estynnwn ein cydymdeimlad i Geraint Gill,organydd yr eglwys a'i wraig Helen yn eu colled o fam a mam-yng-nghyfraith annwyl. Bu farw Mrs Glenys Gill o Fangor ddiwedd Chwefror.

*Brysiwch wella!*
Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd gyda bywyd newydd ac yn ei sgil dymunwn adferiad buan i Ceri Edwards ar ôl codwm drwg ac i Michaela Roberts a Rhian Llewelyn Jones y ddwy yn dilyn cwrs o driniaeth fel cleifion allanol yn Ysbytai Glan Clwyd a Gwynedd. Da gweld Pat Jones yn ôl yn ein plith. Pob dymuniad da hefyd i Iona Wyn Jones, Robin Jones a merch Liz Jones sef Tina Bradford yn dilyn cyfnodau o anhwylder.

*Garddwest y Tair Eglwys*
Dyddiad i'w gofnodi! Bydd y Garddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 13eg 2019. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau ar gyfer stondinau amrywiol – anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn!

*Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai*
Y drefn arferol yn y mis yw: Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.
Gwasanaeth Taizé ar y pedwerydd Sul am 5 y.h.

*Rhagflas o wasanaethau arbennig Eglwys Sant Tegai yn yr Wythnos Sanctaidd ym mis Ebrill*
*Dydd Gwener y Groglith* (Ebrill 19eg) 9.45 y bore, Gorymdaith Y Groes sef taith gerdded o 3.5 milltir yn cychwyn o'r eglwys.
*Sul y Pasg* (Ebrill 21ain) 10.15 Yr Offeren – noder yr amser.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill. Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Cefnogwch eich busnesau lleol

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion, Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



## Cofio Cyfaill

Dw i am droi oddi wrth garnifalau am y tro a sôn am golli ffrind bore oes, sef Jac (Williams), a fagwyd y drws nesa' ond dau i mi yn ardal Braichmelyn. Tai llofft-a-siambar, gydag un stafell fyw, oedd yn y brif stryd ond roedd stryd arall, fymryn byrrach, yn arfer bod lle mae stad Ger-nant heddiw. Mae'n syndod faint o blant a fagwyd mewn tai mor fach a chofiaf un o'm cyn-gymdogion yn dweud wrthyf, yn gymharol ddiweddar, ei bod hi'n un o ddeuddeg o blant a fagwyd o fewn rhyw dri drws i'n tŷ ni. Synnais a rhyfeddais o glywed hynny – deuddeg o blant a'u rhieni i gyd dan yr unto mewn tŷ llofft-a-siambar! Syfrdanwyd fi fwy fyth gan symylwydd diniwed ei hymateb: 'Ti'n gweld, doedd 'na ddim telifishion yr adeg honno!'

**Teulu o bump**

Roedd Jac ei hun yn un o bump. Mae Gwilym, yr hyna' yn dal i fyw yn stad Glanogwen. Jesse oedd y nesa' ato fo; bu ef farw rai blynyddoedd yn ôl. Roedd ganddyn nhw ddwy chwaer, sef Ethel Eleanor a fu farw yn ei chartref yn y Fali, Sir Fôn, ar Ragfyr 1 y llynedd. Roedd Ethel yn fam i chwech o blant ac felly hefyd Bessie (pum merch ac un mab a fu farw yn ei grud). Bu Bessie farw fis Chwefror y llynedd, ar ôl byw, fel Jac, yng Nghaerlŷr am nifer o flyneddoedd.

**Chwarae plant**

Roedd Jac wedi gweithio a byw yn Nghaerlŷr (*Leicester*) ar ôl priodi Joan ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, yn dal i hiraethu am gyfnod ei blentyndod yn Nyffryn Ogwen, Byddem yn mwynhau sgwrs dros y ffôn yn hel atgofion a mynd dros yr hwyl a'r direidi a fwynhaem yn blant a chofio chwarae am oriau ar lethra' Pen-y-Braich, y tu ôl i'n cartrefi, heb feddwl am fynd adra nes cael ein hatgoffa gan ein boliau ei bod hi'n amser bwyd. Cofiem am felyster y gellyg a 'gaem' ar y goeden yng ngardd Miss Jones, Glan Denys, a'r eirin tagu blasus a blygai frigau'r goeden gan eu pwysau mewn gardd arall i lawr y lôn. Cofio hefyd am baratoi'r goelcerth ar gyfer noson tân gwyllt ac, wrth gwrs, am y noson fawr ei hun … ond stori arall ydi honno!

**Ar y lôn**

Yn aml iawn, byddem yn chwarae pêl ar y lôn o flaen ein tai ond yn gorfod rhoi'r gorau iddi pan fydda'r fyddin o chwarelwyr yn gorymdeithio tuag adra ar ddiwedd caledi'r diwnod. Ar y lôn, hefyd, y byddem yn eistedd ar ddiwrnod poeth yn ystod yr hafau hirfelyn tesog a gaem ers talwm, yn gwthio ein hewinedd i'r swigod hynny a godai yn y tar-mac poeth – heb boeni dim am y gyflwr penola' ein trowsusa' a'n bysedd du gan dar-mac – nac am y ffrae anochel a fyddai'n ein disgwyl pan aem adra!

**Y dyn sâl**

Ond 'wnes i erioed atgoffa Jac am yr adegau hynny (ar ôl codwm, efalla') pan fyddai'n crio nerth esgyrn ei ben a ninna'n ei glywed o'r tŷ. Ac roedd Jac yn crio dros Gymru ar adegau felly – mor uchel ei gloch fel y bydda' mam yn agor y drws ffrynt a mynd allan ato i geisio'i gysuro a'i dawelu gydag apêl nad oedd fawr o synnwyr ynddi: 'Wel, taw, Jac bach, mae 'na ddyn yn sâl yng Nghaernarfon! …'. Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen am 'straeon Jac' ond rhaid ymatal.

**Ffarwelio**

Treuliodd Jac ei flwyddyn neu ddwy olaf mewn Cartref yng Nghaerlŷr, mewn 'byd newydd' yn llwyr, wedi colli 'nabod ar aelodau'i deulu ond eto'n mwynhau edrych ar lun yr oeddwn wedi'i anfon ato flynyddoedd yn ôl – llun tri chyfaill bore oes, sef Emyr Vaughan (chwith), Jac (ar y dde) a fi yn y canol . Bu Jac farw'n dawel ddydd Mercher, Chwefror 20, eleni, a chydymdeimlwn â'i briod, Joan, a'i ddwy ferch, Mandy a Helen, gan gofio'n arbennig, hefyd, am ei frawd, Gwilym.



I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead** Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Ysgol Bodfeurig

**Cyswllt gyda rhieni**
Fel rhan o'n hymdrechion i gael rhieni i chwarae rôl yn addysg plant yr ysgol cynhaliwyd sawl digwyddiad yn ddiweddar i roi cyfle iddynt ddod i mewn i'r ysgol a gweld yr hyn sy'n mynd ymlaen. Cafodd rheni dosbarth Idwal gyfle i wrando ar gyflwyniad am y Cyfnod Sylfaen cyn mynd i weld y plant wrth eu gwaith yn yr ardaloedd, tra bod rhieni dosbarth Ogwen a Tryfan wedi eu syfrdanu wrth weld gwaith TGCh ar y cyfrifiaduron gan eu plant. Diolch hefyd i'r arweinwyr digidol am ddangos yr offer codio newydd – diddorol dros ben! I orffen yr wythnos gwahoddwyd rhai o rieni dosbarth Ogwen i wers mathemateg – profiad gwerth chweil i weld sut mae eu plant yn dysgu. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r gweithgareddau.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i blant yr ysgol am lwyddo yn eisteddfod yr Urdd. Bu Freya yn brysur yn cystadlu mewn celf a chrefft a bydd ei gwaith yn mynd ymlaen nawr i'r Eisteddfod Sir. Bu Nieve ac Erin yn llefaru, tipyn o gamp a hwythau dim ond wedi dysgu Cymraeg ers ychydig dros flwyddyn! Llongyfarchiadau i'r ddwy – i Nieve am ddod yn ail yn yr eisteddfod sir ac i Erin am ddod yn gyntaf. Pob lwc i ti Erin yn Gaerdydd!



**Gweithdy Sphero**
Diolch o galon i Ysgol Rhiwlas am gynnal gweithdy Sphero ar gyfer ein arweinwyr digidol. Cafodd pawb bleser yn dysgu sgiliau codio newydd ac maent yn edrych ymlaen yn fawr i ddysgu gweddill y dosbarthiadau sut i'w ddefnyddio. Diolch Ysgol Rhiwlas am y croeso – braf yw cael cydweithio gydag ysgolion eraill y dalgylch!




**Brwydr y Deinosoriaid**
Brwydr y deinosoriaid yw thema dosbarth Idwal y tymor yma felly gallwch ddychmygu y syndod ar wynebau pawb pan ddaeth deinosor i'r ysgol! Daeth Teach-Rex i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda'r dosbarth ac i ddysgu mwy iddynt am fyd y deinosoriaid. Cafodd pawb brynhawn anhygoel yng nghwmni Jam y deinosor – profiad bythgofiadwy!

**Hanes yr ardal**
Fel rhan o'u thema Milltir Sgwar bu dosbarth Ogwen yn dysgu am hanes y chwarel a'r Streic Fawr. Ar ôl astudio mapiau a chyfrifiadau o'r cyfnod, coronwyd y cyfan gydag ymweliad a'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Cafwyd cyfle i weld sut mae llawer wedi newid ers cyfnod y Streic – mae pawb yn sicr wedi mwynhau dysgu mwy am hanes yr ardal leol.

**Masnach Deg**
Thema dosbarth Tryfan y tymor yma yw Masnach Deg. Maent wedi bod yn brysur iawn yn dysgu mwy am fasnach deg, yn mynegi barn ar y mater ac yn creu bas data gyda gwybodaeth ond heb os, uchafbwynt y thema oedd y cyfle i goginio cacenau masnach deg. Mmm blasus!



## Ysgol Abercaseg



**Amgueddfa Lechi Llanberis**
Fel rhan o'r thema 'Mae gen i dipyn o dy bach twt' aeth dosbarth Tryfan i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i arsylwi a chymharu tai o wahanol gyfnodau. Cafodd y plant ddiwrnod prysur iawn, roedd pawb wedi mwynhau. Diolch i'r holl staff am y croeso!

**Eisteddfod Cylch Dyffryn Ogwe**n
Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn Eisteddfod Cylch Dyffryn Ogwen dydd Sadwrn Mawrth 16eg. Roedd pawb wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan yr holl feirniaid. Da iawn pawb!

**Ymweliad PC Owain**
Roeddem yn falch o weld PC Owain yma unwaith eto. Tro 'ma cafodd y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ddysgu am reolau 'Pwy? Beth? Pryd?' oedd yn cynnwys dysgu am foddion a sut i gadw'n ddiogel. Mi wnaeth Blwyddyn 2 fwynhau dysgu am reolau SMART sef rheolau sut i gadw yn ddiogel ar y we. Cofiwch fod angen cofio'r rheol yma adref ac yn yr ysgol: Saff, Meddwl, Aros, Rhaid cofio, Trafod.

**Gwasanaeth Meddylfryd o Dŵf**
Braf oedd gweld wynebau cyfarwydd plant blwyddyn 3 Ysgol Pen y Bryn yn ein hysgol. Roedd y plant wedi paratoi gwasanaeth Meddylfryd o Dŵf wrth gyflwyno cymeriadau'r pwerau dysgu, ac atgoffa pawb sut i'w defnyddio wrth wynebu heriau newydd, dysgu o'i camgymeriadau a dod yn fwy annibynnol yn eu dysgu. Diolch blwyddyn 3!

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE



# Garddio

Mae'r gwanwyn i'w weld o'n cwmpas ym mhob man ac mae'n amser i dorchi llewys yn yr ardd.

Mi fydd y coed blodeuog yn harddu'r fro ym mis Ebrill. Dyma un o'r misoedd mwyaf cynhyrfus i'r garddwr gan fod modd plannu'r rhan fwyaf o hadau.

Fel arfer, y mae'r hadau a blannwyd eisoes dan wydr yn tyfu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'n amser i blannu y tu allan - ond gwyliwch rhag barrug a rhew dros nos.

Gallwch ddechrau rhoi sylw i'r lawnt hefyd. Ar ôl yr holl law rydan ni wedi'i gael, gallai ychydig o fwyd wneud lles iddi ynghyd â'i hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd.

**TASGAU**

1. Cadwch y chwyn dan reolaeth - eu dal nhw'n gynnar sydd eisiau cyn iddyn nhw wneud meistr arnoch chi.
2. Gwyliwch rhag i flodau'r coed a'r llwyni ffrwythau gael barrug.
3. Clymwch y rhosod sy'n dringo.
4. Rhowch fwyd i'r rhosod a llwyni eraill.
5. Mae'n amser hau blodau blwyddol a hadau perlysiau.
6. Gallwch roi ychydig mwy o ddŵr i blanhigion tŷ.
7. Gallwch hau lawnt newydd neu drwsio mannau moel.
8. Gallwch roi pryd o fwyd i'r rhosod ddechrau mis Ebrill ac eto wedyn ddechrau mis Mehefin.

Dyma'r amser prysuraf o safbwynt plannu. Plannwch eich prif gnwd o datws. Tynnwch y rhan fwyaf o'r egin oddi arnyn nhw gan adael ond rhyw ddau neu dri. Cofiwch roi digon o dail i'r tatws a throedfedd dda rhyngddyn nhw. Gallwch hau persli hefyd; mae rhai yn rhoi dŵr cynnes iawn ar yr hadau gan nad ydynt yn egino'n hawdd. Gallwch hefyd hau pys, moron a sawl llysieuyn arall. Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol.

Mae'r betys yn un o'r llysiau gorau y gallwch eu tyfu. Mae'r croen piws yn cynnws 'betaine', sydd, mae'n debyg, yn lleihau clefydau ar y galon a'r posibiliad o gael strôc. Mae'n cynnws magnesiwm a haearn, felly mae'n dda i'r gwaed. Mae betys yn hoff o bridd gyda draeniad da (er heb fod yn rhy sych), gyda gwres. Rhaid plannu pob betysen gyda tua 4"- 6" [10cm - 15cm] rhyngddyn nhw, er mwyn i'r planhigion gael dechrau da.

# Côr y Penrhyn

## gan Derfel Roberts

**Nodyn gan Bwyllgor Llais Ogwan**
Ymddiheurwn fod llithriadau wedi ymddangos wrth olygu colofn Côr y Penrhyn yn rhifyn mis Mawrth o'r Llais.

**Cyngerdd gyda Chôr Meibion Taf.**
Ar Nos Sadwrn 30 Mawrth croesawodd y côr aelodau Côr Meibion Taf i Fethesda i gynnal cyngerdd ar y cyd gyda ni yng Nghapel Jerusalem. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i wrando ar y ddau gôr yn cyflwyno amrywiaeth o ddarnau hen a newydd.
Roedd y cyngerdd wedi gwneud argraff arbennig ar rai a dwedodd Mrs Nia Jones o Fôn ei bod wedi ei phlesio'n fawr gan leisiau'r ddau gôr. Meddai, " Fe fûm i'n canu fel unawdydd gwadd gyda Chôr y Penrhyn rai blynyddoedd yn ôl bellach, ac ers hynny mae'r côr wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu rhaglen a'u cyflwyno gwahanol a chyffrous." Ategwyd hynny gan Mr a Mrs Jones o Fethesda, " Dan ni'n dau yn gefnogwyr brwd o Gôr y Penrhyn," meddent, "a phan mae eu canu yn dwyn pleser i gynifer o bobl o bob oed maen nhw'n haeddu eu clodfori i'r uchelderau." Ychwanegodd Mr Jones, "Dwi'n dilyn rygbi a chanu fel ei gilydd ac mae'n braf gweld mentrau lleol fel y clwb rygbi a'r côr yn mwynhau cyfnod o lwyddiant fel hwn."

Wrth sôn am ganu Côr Taf dwedodd amryw bod eu lleisiau melodaidd a'u canu sensitif yn wefreiddiol a hoffodd amryw'r darn lle'r oedd Steffan Jones, eu harweinydd talentog, yn cymryd rhan yr unawdydd yn arbennig o effeithiol. Dyma gôr sy'n cynnwys nifer o ffigurau amlwg o fyd y cyfryngau gan gynnwys Huw Llewelyn Davies a John Evans. Daeth Côr y Penrhyn i gyffyrddiad â hwy gyntaf yn ystod gêm rygbi ryngwladol yn erbyn Yr Alban yng Nghaerdydd. Hyderwn yn fawr y bydd y berthynas yn parhau.

**Gwaith yn pentyrru**
Mae rhaglen y côr am y flwyddyn yn prysur lenwi gyda dau gyngerdd mawr yn Llundain ac un yn Glastonbury , Gwlad yr Haf, ar y gweill. Ar ben hynny byddwn yn canu gyda *9Bach* ym Methesda ac yng nghyngerdd Roc y Wifren Wib [Zip World Rocks] gyda Meic Peters ac amryw o sêr eraill yn Chwarel y Penrhyn ym Mis Mehefin. Hefyd, ar 1 Mehefin byddwn yn perfformio gyda *Band Pres Stavanger* o Norwy yn y Gadeirlan ym Mangor.
Ar ben hyn oll bydd y côr yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ym Mis Awst yn ogystal â chynnal ein cyngherddau 'bara menyn' yn Henllys a Llandudno.
Meddai Dafydd Jones Morris, Cadeirydd y Côr, " Eleni bydd fy amser i yn y gadair yn dod i ben ac mae hi wedi bod yn bleser arbennig i ni fel aelodau bod y côr wedi cael cymaint o alwadau a chyhoeddiadau, a hynny ar fyr rybudd yn aml". Aeth Dafydd yn ei flaen i nodi, "Rydan ni wedi canu mewn lleoedd, ac o dan amgylchiadau pur wahanol, ac mae llawer o'r hyn a wnaethon ni wedi bod yn arbrofol o ran ei natur." Cyfeirio roedd Dafydd at y ffaith i ni ganu gweithiau cefndir i *9Bach* ym Mangor a Chaerdydd ac mewn rôl debyg gyda Damon Allbarn a *The Good, the Bad and the Queen* ar eu halbwm newydd ac yn Blackpool. Hefyd, yn ystod teyrnasiad Dafydd buom yn Washington a Cholumbus yn yr Unol Daleithiau ac yn Stavanger, Norwy.



**Dafydd Jones Morris, Cadeirydd y Côr fydd yn ymddeol o'i swydd eleni.**

Ategwyd yr hyn a ddywedwyd gan Dafydd pan ofynnwyd i



**Haydn Davies, Is-gadeirydd y Côr**

Haydn Davies, darpar gadeirydd newydd y côr am ei argraffiadau ef.

"Rydw i'n ffodus iawn fy mod i'n dod i'r gadair ar adeg mor gyffrous yn hanes Côr Meibion y Penrhyn," meddai Haydn. Aeth ymlaen i sylwi, "Pan ymunais i â'r côr i gychwyn doedd gen i ddim syniad faint o bleser a gawswn gyda'r holl dynnu coes a herian awdurdod. Dysgais yn fuan bod ochr ddifri i weithgareddau'r côr, gyda phwysau i ddysgu darnau newydd a bod yn ddisgybledig o ran amseru a llwyfannu."

Ychwanegodd, "Mae gynnon ni flwyddyn fawr arall o'n blaenau ac edrychwn ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Mae aelodau newydd yn ymuno â'r côr yn wythnosol ac mae enw da'r cantorion hyn yn mynd ar hyd ac ar led y wlad. Mae cael bod yn rhan o'r fath ynni ac asbri yn rhoi gwefr i ni i gyd," meddai, cyn terfynu gyda'r sylw, " I fyny bo'r nod."


**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

# Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 / heleddselwyn@hotmail.com

**Cydymdeimlo**

Gyrrwn ein cydymdeimlad at Robin Evans, Edwina, Owain ac Ynyr, Rallt, gan iddynt golli mam a nain – Valmai Evans, Bryn Cul, Tregarth, gynt. Gyrrwn ein cofion hefyd at chwaer Robin, Ann Catrin Evans sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon a'i mab Joseff.

'Rydym hefyd yn cydymdeimlo efo Gwenfair Vaughan Jones a'r teulu gan iddi golli ei chymar, John, yn ddiweddar. Mae Gwenfair wrth gwrs yn byw yn Efrog Newydd ers sawl blwyddyn bellach ond yn parhau â chysylltiad agos â'r Gerlan gan fod ei mam, Mrs Jane Jones, yn byw yn Gwernydd. Dyma eiriau Gwenfair am John:

"Ar ôl brwydr ddewr yn erbyn cancr, hunodd John Tudor Davies, cymer cariadus a darpar briod Gwenfair Vaughan Jones yn ysbyty The Royal Marsden yn Llundain ar Fawrth 12 2019. Yn wreiddiol o Dywyn, roedd John yn syrfëwr ac yn Gyfarwyddwr Buddsoddi gyda chwmni datblygu adeiladu Sellar yn Llundain, ac yn un o brif ddatblygwyr adeilad eiconig Y Shard. Roedd yn Gymro i'r carn, yn gefnogwr rygbi brwd ac yn uchel ei barch trwy'r diwydiant eiddo yn Llundain

Hoffai Gwenfair ddiolch yn ddirfawr i'w theulu a chyfeillion, pell ac agos, am eu cefnogaeth, caredigrwydd, cardiau ac arian a roddwyd i'r Royal Marsden er cof amdano.

Dyma lun o'r ddau ohonynt cyn i John gael ei daro'n wael. Ein cofion cynhesaf atat Gwenfair.






## Gwobrau Gwerin Cymru

Mae'r triawd arloesol VRi, sy'n cynnwys Patrick Rimes o Gerlan, wedi eu henwebu ddwywaith yng ngwobrau Gwerin Cymru. Mae'r hogia' wedi eu henwebu am y grŵp gorau ac am yr artist gorau sy'n cychwyn dod i'r amlwg. Am fwy o fanylion, ewch i **www.vri.cymru**

**Ymweld â Japan**

Dwi'n siŵr y byddai nifer ohonom yn neidio at y cyfle i gael mynd i Japan. Dyna yn union ddigwyddodd i Gareth Moriarty, Stryd y Ffynnon yn gynharach yn y mis. Bu'n ddigon ffodus i gael ei ddewis i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth karate yno, cyfarfod maer Dinas Kamoeke ag ymarfer ei grefft wedyn yn Ninas Minoh. Mae Gareth wedi gweithio'n galed iawn i baratoi ar gyfer y cyfle yma ac yn ddiolchgar i sensai Dragon Karate, Reuben Florence, ei deulu a'i ffrindiau am y gefnogaeth mae wedi ei dderbyn. Edrychwn ymlaen at glywed beth oedd canlyniad y cystadlu.

**Brysiwch wella**

Gyrrwn ein cofion cynhesaf at Pam Roberts (Sinclair), Ciltrefnus sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers ychydig wythnosau. Gobeithiwn yn fawr y byddi'n gwella'n ddigon da i ddod adref yn fuan Pam.

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Paula Williams a'i phartner Jason, Ffordd Gerlan ar enedigaeth merch fach. Mae'r fechan wedi dod ychydig yn fuan ond yn gwneud yn dda yn yr uned gofal arbennig yn Ysbyty Gwynedd. Mae pawb wedi gwirioni'n lân - yn enwedig taid, Gwyn Williams, a hen nain, Medi Williams Coetmor.

**Penblwydd Arbennig**

Penblwydd hapus iawn i Carrie Rimes, Gwernydd, ar ei phen-blwydd arbennig. Dwi'n siŵr ei bod wedi mwynhau'r dathlu.

**Cystadlu**

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Urdd lleol. Bydd ambell un yn mynd ymlaen i'r Steddfod yng Nghaerdydd ac edrychwn ymlaen at glywed eich hanes yn y misoedd nesaf.

**Croeso i Gerlan**

Croeso mawr yn ôl i Gerlan i Gwion a Megan Hughes a'r plant Tomi, Gruff a Mali. Mae'r 5 wedi dod yn ôl i fyw i Gerlan ar ôl byw lawr ym Methesda am chydig flynyddoedd. Gobeithio y byddwch chi yn hapus iawn yn Ciltwllan.

**Codi arian**

Pan gafodd Kayden James Morris ei eni, bu'n rhaid iddo fynd i Ysbyty Alderhay, ac achubwyd ei fywyd yno. Er mwyn dangos ei ddiolchgarwch, mae Kayden a'i fam Nerys Williams wedi bod yn casglu arian i'r Ysbyty. Ychydig wythnosau'n ôl, aeth y ddau i Alderhay i gyflwyno siec anhygoel am £1,000. Da iawn chi'ch dau!



# Ysgol Tregarth

**Eisteddfod**
Dros yr wythnosau diwethaf mae criw o ddisgyblion Ysgol Tregarth wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Eleni penderfynwyd cystadlu yng nghystadleuaeth y Parti Unsain. Diolch yn fawr iawn i Mrs Jane Parry am baratoi'r dysgwyr ar gyfer yr Eisteddfod.

**Noson Gwricwlaidd**
Cawsom noson gwricwlaidd lwyddiannus nos Lun Ebrill y 1af gydag amryw o rieni wedi dod i wrando ar wahanol gyflwyniadau. Cafwyd cyflwyniad ar 'Addysgeg y Cyfnod Sylfaen' hynny yw – sut mae'r plant yn cael eu haddysgu a beth sy'n mynd ymlaen ar lawr y dosbarth o ddydd i ddydd. Bu cyflwyniad am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a chyfle i rieni weld yr adnoddau mae'r plant yn ei ddefnyddio megis Google Classroom, Hwb a rhaglenni codio. Diolch yn ofnadwy i bawb a ddaeth ac am eich cefnogaeth.

**Rhodd**
Yn ddiweddar fe redodd Nia Hadfield hanner marathon Ynys Môn er mwyn codi arian ar gyfer Ysgol Tregarth. Diolch o galon i Nia am y rhodd ariannol hael a fydd yn ein galluogi i brynu beiciau newydd ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn dilyn lladrata a difrod ar dir yr ysgol. Cododd Nia £400. Diolch yn fawr iawn.



**Yr Esgob Andy**
Yn ddiweddar daeth yr Esgob Andy i ymweld ag Ysgol Tregarth. Cafodd fod yn rhan o'n gwasanaeth i gofio a diolch am ein mamau. Yn ogystal, bu cyfle i'r plant wrando a holi Esgob Andy ynglŷn â'i waith yn yr esgobaeth. Roedd y plant wrth eu boddau'n cael gwisgo gwisgoedd Esgob Andy, diolch am ddod draw atom.



**Gweithdy 'Streic'**
Fel rhan o'r gwaith ar thema Milltir Sgwar, cafodd dosbarth Ffrydlas ymweld a'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i fod yn rhan o weithdy yn edrych ar ddigwyddiadau Y Streic Fawr yn Chwarel y Penrhyn. Cafwyd cyfle i astudio a thrafod amryw o arteffactau , yn cynnwys lluniau, posteri, a chreiriau o'r cyfnod. Hefyd treuliwyd amser yn y bwthyn yn clywed gan wraig o'r cyfnod am eu ffordd o fyw, a'r caledi oedd yn eu hwynebu. Prynhawn hynod fuddiol oedd yn sicr wedi cyrraedd y nôd o ddod a'r cyfnod yn fyw i'r disgyblion.

**Taith Gerdded Ardal Tregarth**
Eto fel rhan o'r gwaith ar thema Milltir Sgwar, trefnwyd i Gareth Roberts o Menter Fachwen ein harwain ar un o'i deithiau hynod i ddysgu am hanes y pentref. Drwy lwc cawsom ddiwrnod hynod o braf a heulog a'r ardal ar ei gorau. Yn ei ffordd ddihafal ei hun fe gyflwynodd Gareth i ni lu o hanesion difyr am amrywiol gyfnodau yn hanes y Pentref. Dysgom am hen Dregarth, sef ardal Cororion a safle cartref o gyfnod y Tuduriaid. Cawsom ginio ar olion Pentref Celtaidd, cawsom hanes yr Home Guard, y felin goed ger garej Pandy, amrywiol bethau a fu yn yr adeilad sydd heddiw'n Dafarn Pant yr Ardd, i enwi ond ychydig! Gwnaeth hyn drwy gyfrwng lluniau, llafaredd a thystiolaeth archaeolegol ymysg eraill. Roedd y plant wrth eu bodd ac wedi dysgu cymaint yn ystod y dydd. Roedd eu chwilfrydedd yn amlwg a rhai wedi tywys eu rhieni ar y daith dros y penwythnos. Diolch o galon i Gareth am brofiad bythgofiadwy.

**Rhieni yn y gwersi**
Bore Iau, Mawrth 28ain chwyddwyd y nifer yn bresennol yn un o wersi dosbarth Ffrydlas, pan groesawyd 4 o rieni i'n mysg. Roedden nhw wedi derbyn gwahoddiad i ymuno a'u plant yn un o'u gwersi. Teimlwyd fod hyn yn ffordd effeithiol o gynnwys rhieni yn natblygiad eu plant, ac o amlygu iddynt sut mae'r plant yn gweithio a threfn y dosbarth. Cafwyd sesiwn ddifyr a'r rhieni yn datgan iddynt fwynhau y profiad.

**Gala Nofio**
Cynhaliwyd gala nofio dalgylch Bangor/ Ogwen ar yr 20fed o Fawrth yng nghanolfan hamdden Bangor. Cystadlodd 9 ysgol wahanol yn erbyn ei gilydd yn ystod y bore er mwyn ennill pwyntiau dros eu hysgolion. Bu 14 o blant blwyddyn 3 i 6 yn cynrychioli tîm ysgol Tregarth. Ar ôl yr holl ragrasys a'r rasys gyfnewid, roedd hi'n amser i gyfrifo pa ysgol oedd a'r nifer mwyaf o bwyntiau. 3ydd oedd hanes ysgol Tregarth allan o'r ysgolion i gyd. Ond, roedd cystadleuaeth ar wahân ar gyfer yr ysgolion gyda llai na 70 o blant yn eu hysgol. Llwyddodd tîm ysgol Tregarth i ennill y gystadleuaeth yma a dychwelyd yn ôl i'r ysgol gyda'r darian efo nhw. Da iawn i bawb am gystadlu.



# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2019

2019
*Ebrill*
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

*Mai*
04 Cefnfaes – NSPCC
11 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
18 Cefnfaes – Gorffwysfan

*Mehefin*
01 Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

*Medi*
07 Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
14 Cefnfaes – NSPCC
21 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai, Llandygai.
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

*Hydref*
05 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
12 Cefnfaes – Caban Gerlan.
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

*Tachwedd*
02 Cefnfaes – Clwb Camera.
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
30 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

CANOLFAN CEFNFAES

**GYRFA CHWIST**
EBRILL 23 a 30
MAI 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI**
**NSPCC**
SADWRN, 4 MAI
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI**
**CYMORTH CRISTNOGOL**
SADWRN, 11 MAI
10.00 – 12.00

CYMANFA ANNIBYNWYR BANGOR A BETHESDA
**OEDFA YSGOLION SUL**
yng Nghapel Bethlehem, Talybont
19 Mai 2019, am 10.30yb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI**
**GORFFWYSFAN**
SADWRN, 18 MAI
10.00 – 12.00

Marchnad Ogwen

**Mai 11eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Mehefin 8fed**
**Cae Sioe Dyffryn Ogwen**

**Gorffennaf 13eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

MEDDYGFA BETHESDA
**ATGOFION AR GÂN**
Sesiynnau cerddorol i bobl dros 50 oed
**Gwener, 26 Ebrill a 10 Mai**
**1.15 – 2.30**
Paned a chân yn ddi-dâl.
(Canolfan Gerdd William Mathias.)

Cofiwch alw yn
SIOP Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai
4 Rhes Ogwen, Bethesda
Oriau agor:
**Dydd Llun, Mercher, Iau**
**a Gwener: 9.30 – 3.30**
**Bore Sadwrn: 9.30 – 12.00**
LLU O FARGEINION
(Elw at gostau rhedeg y Clwb)

**Neuadd Bentref Rhiwlas**
**Darlith 'Hanes Plas Pentir'**
**gan Cynrig Hughes**
Nos Iau, Mai 2, 2019 am 7.00
Mynediad am ddim.
Rhoddion tuag at gostau'r Neuadd

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI**
**CYMDEITHAS CAPEL JERUSALEM**
SADWRN, 27 EBRILL
10.00 – 12.00


Carmel Llanllechid
**Te Bach**
yn y festri
**Pnawn Llun, 20 Mai**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Dosbarthu'r Llais**
Hoffem ddiolch i Iwan Thomas am ei gymwynas yn dosbarthu'r Llais dros y blynyddoedd. Mae Iwan yn trosglwyddo'r gwaith i ddwylo da sef, Lyndon Myles. Os am gopi cysylltwch gyda Lyndon os gwelwch yn dda.

**Llongyfarchiadau**
Mae Ffion James, Rhyd-y-Groes yn gadael ei swydd yn Ysgol Friars, Bangor gan gychwyn ei swydd newydd fel Darlithydd Sgiliau Byw yn Annibynnol yn Llangefni.



## BWRLWM HAF

Diwrnod Mawr o Hwyl i'r Ardal

**Pnawn Sadwrn, Gorffennaf 6ed, 2019**

**2pm – 6 pm**

ar gae Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda

Ar ôl diwrnod gwych y llynedd, cynhelir Bwrlwm Haf eto eleni. Bydd gwahanol rannau o Ddyffryn Ogwen yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau doniol. Cystadlaethau i'r plant hefyd. Pnawn llawn sbort!

Dyma'r timau:

**OGWEN ISAF**
Capten: Paula Williams
(Paulaowen10@hotmail.co.uk)

**OGWEN UCHAF**
Capten: Donna Watts
(donna@ogwen.org)

**TREGARTH, MYNYDD LLANDYGAI A RHIWLAS**
Capten: Anwen Morgan
(anwenmorgan@hotmail.co.uk)

**RACHUB, LLANLLECHID A THALYBONT**
Capten: Michael Williams
(michaellambchops@hotmail.co.uk)

**GERLAN A BRAICHMELYN**
Capten: Mari Emlyn Wyn
(mariems@hotmail.co.uk)

Holwch eich capteiniaid i gymryd rhan. Neu dewch i gefnogi eich ardal chi!

**Mynwent y Cyngor Cymuned**
Cofiwch i fodur ddymchwel pendist a giât y fynwent rhai misoedd yn ôl. Mae Meurig Williams wedi rhoi popeth yn ôl yn ei le yn daclus gan ddangos crefft sydd yn prysur ddiflannu o gefn gwlad. Hefyd, hoffem ddiolch i Glerc y Cyngor am gydlynu'r gwaith yma ynghyd a'r gwaith ail wynebu llwybrau'r fynwent gyda tarmac.

**Darlith Plas Pentir**
Cynhelir darlith gan Cynrig Hughes ar hanes teulu Plas Pentir yn Neuadd Bentref Rhiwlas am 7.00 nos Iau, Mai 2ail. Bydd mynediad i'r ddarlith yn rhad ac am ddim ond gofynnir am gyfraniad tuag at gostau cynnal y Neuadd.

**Eglwys St. Cedol, Pentir**
*Clwb 100 Mis Mawrth 2019*
1af Rhif 18 Christina McCrea, Waun Pentir
2ail Rhif 11 Gwyn Jones, Llanddeiniolen
3ydd Rhif 33 Nia Roberts, Rhiwlas

*Bore Coffi*
Cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda ar 23 Mawrth. Roedd yn fore hynod o lwyddianus. Diolch i drigolion Bro Ogwen am eich cefnogaeth.

*Hwyl Yr Wyl*
Prynhawn Sadwrn y 20 Ebrill – Sadwrn Pasg - Bydd prynhawn o hwyl yn cael ei gynnal yn y Ganolfan, Glasinfryn am 1.30yp. Bydd helfa Basg ar gyfer y plant, gêm o bingo, tombola ac ambell stondin a lluniaeth ysgafn. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn yr hwyl.

*Garddwest*
Bydd ein garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar 25 Mai am 1.30yh yn y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau, yn cynnwys cynnyrch cartref, nwyddau newydd, Tombola, stondin boteli, mefys a hufen, a raffl, atyniadau i blant ag oedolion a lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn o hwyl.

*Gwasanaethau'r Sul*
Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb , os na nodir yn wahanol, Croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau:

| | |
|---|---|
| 18.4.19 | **6yh** Dydd Iau Cablyd |
| 19.4.19 | **12yh** Gwener y Groglith – Myfyrdod wrth y Groes |
| 21.4.19 | **6yb** Gwasanaeth y wawr – Maes Parcio Llyn Ogwen<br>**9yb** Sul y Pasg – Cymun Bendigaid |
| 28.4.19 | Boreol Weddi |
| 5.5.19 | Cymun Bendigaid |
| 12.5.19 | Boreol Weddi |

# Nyth y Gân

**Gweld a Gwrando**
Mae alaw yn y moelydd, a'r llechfaen
Mor blaen ac ysblennydd,
A'r ffasiwn si o'r ffosydd
Yno'n rhoi sawl cân yn rhydd.

**Y Canwr Anweledig**
I ffwrdd i'w gwrdd fe gerddais, ac yno
Ei ganu a glywais;
A llawn fu'r llwyn efo'r llais
Yn galw, ond nis gwelais.

**Barddoniaeth**
Fel ffynnon, mae barddioniaeth yn gollwng
O gell ysbrydoliaeth,
A daw i fardd hynod faeth
Yn deg ei greadigaeth.

**Gwanwyn Cynnar**
Mae her yn y tymhorau i'w weled
Mor wylaidd ar brydiau
Pan ffrwydra hynod flodau
Yn un rhes cyn amser hau.

**Straeon Môr**
Am y môr mae sawl stori, a'u swyn hwy
Sy'n werth ei drysori;
O'r hanes y daw'r rheini
Sy' yn awr yn wers i ni.

*Dafydd Morris*

* * * * *

**Argyfwng Cenedl**
Ai gwlad fydd heb dreftadaeth? Ei dyddiau
Yw dioddef alaeth;
Yn glaf ac yn ysglyfaeth
I rwth anghofrwydd yr aeth.

**Y Pasg Cyntaf**
Onid Duw a ddaeth i'n tŷ at bob un,
At bawb sy'n gwir gredu;
Iawn gan Gyfaill, cyfaill cu,
I'r oesau a wnaeth Iesu.

*Goronwy Wyn Owen*

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 1 Mai** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 16 Mai** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

# Menter Iaith Dyffryn Ogwen

Tros y misoedd diwethaf, mae Pwyllgor Menter Iaith Dyffryn Ogwen wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd i warchod a hyrwyddo statws cyfartal a dilysrwydd y Gymraeg fel iaith fyw gymunedol yn Nyffryn Ogwen. Dyma grynodeb o'r ymgyrchoedd sydd wedi bod dan sylw gennym:-

*Euro Garage ar Safle Llys y Gwynt*
Anfonwyd llythyr at y Cyng. Dafydd Meurig (Dirprwy-arweinydd Cyngor Gwynedd), gyda chopi at swyddogion perthnasol Cyngor Gwynedd a chynghorwyr sirol yn ardal Dyffryn Ogwen a Bangor, i holi pa gamau a fydd y cyngor sir yn eu cymryd i gywiro'r sefyllfa anfoddhaol sy'n bodoli ar safle Llys y Gwynt gan fod yr arwyddion gan y cwmnïau busnes yn uniaith Saesneg ar y safle. Ym mis Tachwedd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan gwmni Euro Garage a oedd yn datgan bwriad i gywiro'r sefyllfa trwy osod arwyddion dwyieithog ar safle Llys y Gwynt, Llandygái a safloedd eraill y maent yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru. Euro Garage sy'n gyfrifol am y busnesau eraill sydd wedi eu sefydlu ar y safle ac rydym wedi gofyn iddynt esbonio pa gamau a gymerir i recriwtio a chyflogi staff dwyieithog sy'n alluog i ddarparu gwasanaeth yn y ddwy iaith yn y siopau.

Trueni o'r mwyaf nad oedd Cyngor Gwynedd wedi gosod amodau a gofynion ar Euro Garage wrth roi caniatád cynllunio i'r datblygiad ar y cychwyn. Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig calonogol gan y Pennaeth Amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd, yn datgan bod y Cyngor yn bwriadu cysylltu gyda'r cwmnïau busnes unigol i'w hatgoffa o'r gofynion a'r disgwyliadau lleol o ran darparu arwyddion dwyieithog a chyflogi staff i ddarparu gwasanaeth yn y ddwy iaith er mwyn cyfarfod gofynion Polisi Strategol Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa wedi gwella ar safle Llys y Gwynt hyd yma. Byddwn yn parhau i ddwyn pwysau ar Gyngor Gwynedd a chwmni Euro Garages.

*Cais Cynllunio 40 caban gwyliau yng Nghoed Wern Ty Gwyn, Glasinfryn*
Ar ddiwedd 2018, trefnwyd ymgyrch i wrthwynebu'r cais cynllunio a gyflwynwyd i Gyngor Gwynedd i ddatblygu pentref gwyliau ar safle'r goedwig yn Wern Tŷ Gwyn ger Glasinfryn. Gwelir bod nifer o gyrff, cynghorau cymuned ac unigolion wedi anfon llythyrau at Gyngor Gwynedd i wrthwynebu'r datblygiad twristaidd hwn.

*Diwygio Polisi Gosod Tai Cyngor Gwynedd*
Derbyniwyd cadarnhad bod 18 o dai fforddiadwy i'w datblygu a'u gosod ar rent gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar safle Lôn Bach Odro, Lôn Newydd ym Methesda. Cafwyd ar ddeall hefyd bod Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad ar fabwysiadu polisi newydd ar gyfer gosod tai cymdeithasol yng Ngwynedd. Maent yn bwriadu diwygio'r polisi er mwyn gosod tai yn ôl trefn 'bandio' angen yn hytrach na defnyddio trefn bwyntiau ar gyfer ymgeiswyr. Y gobaith yw y bydd hyn yn cryfhau cyswllt gyda'r gymuned leol ac yn ffafrio ymgeiswyr sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd neu fwy. Cyflwynwyd ymateb gan y Fenter Iaith i annog y Cyngor i ddiwygio'r Polisi Gosod Tai er mwyn rhoi mantais a blaenoriaeth i ymgeiswyr lleol sy'n chwilio am dai ar rent yn eu cymunedau.

*Cwmni Gwifran Wib - Zipworld*
Er bod Zipworld wedi ei sefydlu ei hun fel atyniad twristaidd poblogaidd iawn yn y chwarel, mae nifer o bobl wedi cysylltu gyda'r Fenter Iaith i leisio pryder nad yw Bethesda yn gweld llawer o fantais yn lleol. Rydym wedi penderfynu cynnal arolwg o fentrau twristiaeth yn ardal Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau i weld beth yw perthynas y mentrau hyn gyda'r cymunedau lleol cyfagos, a sut mae'r busnesau hyn yn cyfrannu i les economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y cymunedau gan gynnwys cyflogaeth leol a defnyddio cynnyrch lleol. Anfonwyd llythyr at Mr Sean Taylor, perchennog Zipworld, i ofyn y cwestiynau canlynol: Pa gamau a gymerir i wneud defnydd o'r iaith Gymraeg wrth hysbysebu gweithgareddau cwmni Zipworld?

1. Pa ganran o staff a gyflogir sydd yn ddwyieithog ac yn alluog i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith?
2. Pa gyfryngau a ddefnyddir i hysbysebu swyddi a denu gweithwyr dwyieithog?
3. Beth yw polisi'r cwmni mewn perthynas â gwneud defnydd o gynnyrch lleol yn y bwyty?

Rydym yn parhau i ddisgwyl am ymateb ar ôl anfon ein cais ddiwedd mis Ionawr.

*Llwybrau Coedwig Parc Moch*
Fe'n gresynwyd bod arwydd uniaith Saesneg yn dwyn yr enw dieithr 'Bluebell Walk' wedi ymddangos ar giât ym Mharc Moch ger Bryn Bella yn gwahodd ac annog y cyhoedd i ddefnyddio llwybr drwy'r goedwig i weld y ddraig dderw gerfiedig. Mae'r arwydd bellach wedi ei osod wrth droed un o byst y giât. Rydym wedi ysgrifennu at Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddwyn eu sylw at yr arwydd uniaith Saesneg a'r peryglon o osod arwydd sy'n annog y cyhoedd i groesi ffordd brysur yr A5 ger groeslon Bryn Bella er mwyn dringo tros wal fechan i gael mynediad i'r goedwig. Rydym hefyd wedi anfon at y pedwar cynghorydd sir lleol a'r tri chyngor cymuned i ofyn iddynt am eu cefnogaeth i dynnu'r arwydd 'Bluebell Walk' o'r goedwig. Derbyniwyd cadarnhad bod cynghorau cymuned Llanllechid, Llandygái a Bethesda wedi cefnogi ein galwad ar y cyngor sir i ddwyn pwysau ar berchennog y goedwig i symud yr arwydd oddi yno er diogelwch y cyhoedd.

## Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Ers tro bu Siân Gwenllian A.C. yn brwydro yn galed i ehangu addysg feddygol ym Mhrifysgol Bangor. Newyddion da felly oedd y wybodaeth bod nifer o feddygon newydd i'w hyfforddi ym Mhrifysgol Bangor. Mae galw am ysgol feddygol ym Mangor wedi bod yn flaenllaw gan Siân Gwenllian a da gweld ffrwyth y llafur. Dywedodd Siân "Bydd addysg i israddedigon meddygol yn dda i'r Brifysgol, Ysbyty Gwynedd, y Bwrdd Iechyd, Dinas Bangor a'r bobl. Dyma newydd da yn wir."

Siân Gwenllian hefyd fydd ein hymgeisydd Plaid Cymru yn yr etholiad cynulliad yn 2021. Mae yn cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd. Os ydych anen cysylltu efo hi neu Hywel Williams A.S. cewch eu manylion yn Llais Ogwan.

Bu nifer ohonom yn mynychu Cynhadledd Wanwyn y Blaid a gynhaliwyd eleni ym Mhontio, Bangor. Cawsom wrando ar areithiau ysbrydoledig, yn enwedig gan ein harweinydd Adam Price.

Byddwn yn cynnal Cyfarfod Blynyddol yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, Nos Fawrth, Mai 7fed am 7:00 yr hwyr, croeso i'n holl aelodau.

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Cydymdeimlo**

Yn sydyn ond yn dawel yn ei gartref yn Rhuthin ac yn 51oed bu farw Deiniol Wynne Williams, brawd a brawd ynghyfrairth Olwen a Gareth Owen, Caeau Gleision ac ewythr hoff Llinos a Bethan. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich colled drist.

Yn yr un modd cydymdeimlwn ag Aled a Nia Lewis, Bron y Waun, bu farw Robert Owen o Ddeiniolen, taid Aled a hen daid Sion ac Elain. Roedd hefyd yn gefnder i Linda Jones, Erw Wen. Ein cofion atoch yn eich profedigaeth fel teulu.

**Wythnos Cymorth Cristnogol 2019, Mai 12- 18**

Casglwyd mwy o arian llynedd , swm a oedd werth yr ymdrech gan nifer fechan ohonom. Buasai'n braf cael mwy o gasglwyr, ac os oes unrhyw un yn awyddus i wneud cysylltwch a fi,. Rhif ffôn yn y Llais. Diolch i'r rhai a fu'n helpu llynedd ac i'r rhai a gyfrannodd at yr elusen.

**Meddyginiaeth**

Wedi cael annwyd, tagu neu ddolur gwddw yn ddiweddar? Wel, y mae Dilys Parry, Bryn Tirion yn grediniol fod yr hyn a welodd yn Yr Herald Gymraeg sawl blwyddyn yn ôl yn hynod o effeithiol. Llythyr ydoedd gan Owen Jones, Llangefni, a soniodd am eirin perthi, neu eirin tagu i ni yn y cylch yma ac mae'n egluro beth i wneud â hwy.

Dyma'r cyfarwyddiadau: Llenwch bot jam gydag eirin aeddfed at yr ymylon, a thywalltwch siwgr gwyn ar eu pennau, gan ofalu fod y siwgr yn treiglo hyd waelod y pot ac i fyny at yr ymylon. Gadewch iddo sefyll am ychydig o wythnosau, ac ail lenwch ef gyda mwy o siwgr.

Gadewch o unwaith eto, hyd nes y bydd yt eirin wedi crebachu a suddo i'r gwaelod . Tynnwch yr eirin a'r cerrig allan, a bydd yr hylif yn barod i'w ddefnyddio.

Cymerwch rhyw ddau llond llwy fwrdd, fel bo'r angen a chewch weld ei fod yn esmwytho'r cyflwr yn fuan.

Diolch i Dilys am rannu'r wybodaeth ac i'r diweddar Owen Jones, a fagwyd yn Neiniolen a sydd yn ewythr i Hefin Williams, Ffiolau'r Grug. Roedd y teulu wedi byw yn y tŷ, sydd bellach yn furddun wrth giat Maes Meddygon. Hefin, oes hanesion am y teulu pan oeddent yn byw yno, mae.n debyg mai hwy oedd y teulu olaf i fyw yno?

**Clwb Rhiwen**

*Cyfarfod Mawrth 13* : Roedd Jean wedi trefnu cwis inni, un eithaf heriol hefyd! Ann a Frances oedd yn gyfrifol am y baned a Jean enillodd y raffl.

*Mawrth 27 :* Cafwyd Bingo ac roedd yn sesiwn hwyliog, fel arfer. Diolch i Dilys a Jean am y baned.

Mae anhwylder wedi taro sawl un o'n haelodau yn ystod y tymor yma. Gobeithio eich bod yn gwella ac y cawn eich cwmni unwaith eto yn y Clwb.

**Neuadd Bentref Rhiwlas**

**Nos Iau, Mai 2ail am 7** o'r gloch fe fydd Cyrig Hughes yn rhoi darlith ar hanes Plas Pentir, edrychwn ymlaen i gael hanes y teulu yma.

Hefyd fe fydd darlith cyfrwng Saesneg yn cael ei chynnal yn y Neuadd ar **Mai 16 am 7 o'r gloch**.

**Clwb Crefftau**

Cynhelir y Clwb bob Nos Lun am 7 o;r gloch yn y Neuadd ac y mae'n mynd o nerth i nerth. Maen rhyddid i wneud unrhyw gyfrwng er enghraifft gwau, cwilti ogwaith ffelt, brodio, gwneud cardiau ac yn y blaen. Mae;n noson hwyliog a cheir paned hefyd.

**Merched y Wawr**

Cyfarfod Mis Mawrth. Derbynwyd ymddiheuriadau oddi wrth Annes, Helen ac Olwen. Deallwn fod Jini ac Elena yn gwella ond heb fod yn ddigon da i ymuno â ni, brysiwch wella eich dwy. Bu farw brawd Olwen ac roeddem yn cydmdeimlo â hi a'r teulu.

Roedd Jini wedi casglu arian at y Distawerwydd Noddedig a deallwn fod Margaret a Jen am wneud yn ei lle, diolch i'r ddwy. Llywydd y mis oedd Carys ac eglurodd mai tair o'r gangen oedd am drafod ac arddangos eu gwaith crefft inni, mae'r tair yn fedrus iawn, Y mae Linda yn weithgar gyda'r pwyllgor Celf a Chrefft a siaradodd am y cystadlaethau a geir, mae tair yn ystod y flwyddyn,Yr Ŵyl Haf, Sioe Llanelwedd a'r Ffair Aeaf. Fe ddangosodd eitemau o'i gwaith a gyflwynwyd yn yr amrywiol gystadlaethau. Cwiltio yw prif ddiddordeb Linda a daeth a rhai gyda hi ac roddent yn ddeniadol iawn.

Crosio yw maes Jenny ac mae'n creu pob math o nwyddau, ac roedd ganddi ddigon o enghreifftiau i ddangos inni. Y mae hefyd yn gwneud gwaith â ffelt y mae'n ei wneud ei hun.

Mae Mari yn fedrus gyda'r gweill gwau, yn gwneud pethau â llawer o waith arnynt ond hefyd yn creu eitemau fel torchau Nadolig ac roedd un yn wreiddiiol iawn , wed'i wneud o dda-da. Ar adegau y mae hi a Jenny yn cydweithio ac enghraifft o hyn oedd yr un o olygfa o dan y môr a'i donnau a grewyd ar gyfer Gŵyl yr Afon ym Methesda.

Diolchwyd i'r dair am arddangos eu doniau inni.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd heb fod yn dda, gartref, mewn cartref preswyl neu yn yr ysbyty. Ein dymuniadau gorau i chi i gyd.

PANTRI PAT

## Dhal moron a chnau coco

*Cynhwysion*

1 llwy fawr o olew.
1 nionyn wedi ei dorri'n fân.
3 moronen fawr wedi eu torri'n denau a mân.
2 ewin garlleg wedi eu malu.
Darn 3 cm o sinsur efo'r gwraidd wedi ei gratio.
½ llwy fawr o dyrmerig (saffrwm yr India).
1 llwy de o goriander mâl (*ground coriander*).
½ llwy de o naddion (*flakes*) chilli.
1 tun o laeth cnau coco di-fraster.
I litr o stoc cyw iâr neu lysiau.
225g o ffacbys (*lentils*) coch
100g o reis basmati.
3 llond llwy fawr o goriander ffres wedi ei dorri'n fân, a dipyn i'w roi ar y dhal ar y diwedd.

*Dull*

Mewn woc (neu sosban), cynheswch yr olew, ac yna coginio'r nionod, y moron, y garlleg, y sinsir a'r naddion chilli mewn 4 llond llwy fawr o ddŵr.

Rhowch gaead ar y woc am tua 10 munud ar wres canolig nes bydd y llysiau'n feddwl.

Yno, ar wres isel, ychwanegwch y tyrmerig, y powdr coriander mâl, a'i goginio am un munud.

Ychwanegwch y stoc a'r ffacbys (*lentils*) coch ac ar wres isel, ei fud-ferwi am 20 munud efo'r caead arno.

Berwi'r reis mewn sosban arall am 10 munud, a'i adael i sefyll am 10 munud.

Tynnwch y woc oddi ar y gwres ac ychwanegu'r llaeth cnau coco.

Tolltwch hanner y dhal a'i falu yn y prosesydd bwyd, a wedyn ei ei roi yn ôl yn y woc.

Cymysgwch ac ychwanegu'r coriander mâl ffres.

Peidiwch â rhoi'r caead yn ôl arno neu fydd y llaeth cnau coco yn troi.

Rhowch eich dhal mewn powliau reit ddwfn, a rhoi'r reis yng nghanol y dhal.

Mae hwn yn flasus iawn ac yn addas i *vegans* hefyd.

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Diolchiadau**

Dymuna Alan, Alwenna, Rheinallt, Rhodri a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant i holl gymuned Dyffryn Ogwen a thu hwnt am y gefnogaeth anhygoel a gawsant yn ystod eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli mab, brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff.

Diolch am yr holl fwyd, blodau, ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a'r rhoddion hael at gael cadair/cadeiriau esmwyth i ward asesu Gogarth, Ysbyty Gwynedd, a diffibriwleiddiwr Bethesda.

Diolch i Gaffi Coed y Brenin am y lluniaeth o'r safon ardderchog arferol, ac i'r Clwb Rygbi am gael defnyddio eu cyfleusterau newydd gwych.

Diolch hefyd i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am ei gefnogaeth a'i wasanaeth hyfryd ddydd yr angladd, ac i Stephen Jones, Trefnwr Angladdau, am ei wasanaeth cefnogol a thrylwyr.

**Cydymdeimlo**

Ar Chwefror 26ain, diwrnod ei phenblwydd yn 84 mlwydd oed, bu farw Phyllis Mary Parry, Ffordd Ffrydlas, ond oedd bellach ym Mhlas Maesincla, Caernarfon. Roedd Phyllis yn briod annwyl i'r diweddar Emrys Lloyd Parry, yn fam garedig i Phillip a Bethan, nain arbennig i Megan, Gwen, Mari a Leri a hen nain Bobi Emrys. Gwraig dawel a pharchus oedd Phyllis, bob amser â gwên ac yn barod ei sgwrs â phawb. Roedd yn hoff iawn o gerdded.

Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel Carmel Llanllechid hyd ei salwch, yn perthyn i'r Clwb Gwau, yn barod i helpu gyda'r te bach a glanhau'r capel.

Bu ei hangladd ddydd Iau, Mawrth 7fed yn Amlosgfa Bangor, dan arweiniad y Parchg. Huw John Hughes a daeth nifer o deulu a ffrindiau i'w choffhau. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydmdeimlad ac am eu rhoddion tuag at Blas Maesincla. Diolch i Stephen Jones am ei drefniadau. Buasai'r teulu yn hoffi rhoi diolch arbennig i staff Plas Maesincla am eu gofal tyner dros Phyllis, a'u natur croesawgar drwy'r amser a dreuliodd hi yno.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Iwan a Samantha, 5 Llidiart y Gwenyn, Carneddi ar enedigaeth Alys Haf Wyn Ellis ar 15fed o Chwefror, chwaer fach i Osian. Llongyfarchiadau i Stephen a Tracy Martin a Mrs Joyce Williams, Hafan Ffordd Bangor ar ddod yn daid, nain a hen nain i Alys. Yr un yw'r llongyfarchiadau i taid a nain Tregarth sef Alwyn ac Alison Ellis, 41 Tal y Cae. Hoffa'r teulu ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd.

**Cartref Newydd**

Croeso i'w cartrefi newydd i Mr. Wynne Parry, yn Rhes y Graig a Mrs. Sulwen Lloyd, yn Maes y Garnedd.

**Hen nain**

Llongyfarchiadau i Mrs. Medi Williams, Stâd Coetmor, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain. Ganwyd merch fach i'w hwyres, Paula, a'i chymar ar 28 Mawrth.

**Ysbyty**

Eto'r mis hwn mae sawl un o'r dyffryn wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion atoch am wellhad buan :- Mrs. Joan Parry, Abercaseg; Mrs. Hilda Campbell, Erw Las; Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd; Mr.Dewi Hughes, Glan Ffrydlas; Miss Anwen E. Hughes, Cilfodan; Mr. Brian Jones, Carneddi; Mrs. Caren Roberts, Llain.

**Cydymdeimlo**

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd sef :-
Mr. a Mrs. Kevin Roberts, Ffion a'r teulu o golli Mr. Justin Brett Ellis yn 44 mlwydd oed, nai a chefnder annwyl.
Mr. a Mrs. Idris Lewis a'r teulu, Ffordd Bangor. Collodd Janice ei thad, y diweddar Mr. Robert O. Thomas, Deiniolen, ar 8 Mawrth. Tad, taid a hen daid hoffus.
Mr. Gwilym Williams a'r teulu, Glanogwen. Bu farw brawd Gwilym, y diweddar Mr. J. Williams yn Lloegr.
Mrs. Olwen Williams, Carneddi, a'r teulu, ar golli ei brawd yn Mostyn, Sir Fflint.
Mrs. Helen Roberts, Andrew a'r teulu, Ffordd Ffrydlas. Collodd Helen ei chwaer, Cynthia yn Swydd Surrey ar 20 Mawrth.

**Marw**

*Mr. Meuryn Puw*

Ar 1af Mawrth, yn frawychus o sydyn yn ei gartref yn Sbaen, bu farw Mr. Meuryn Puw yn 52 mlwydd oed. Ef oedd mab hynaf Alan ac Alwenna Puw, Arllechwedd, Penybryn, brawd mawr Rhodri a Rheinallt, brawd yng nghyfraith Gissella ac Elin, ac ewythr hoffus.

Cafodd ei addysg yn ysgolion Penybryn a Dyffryn Ogwen, cyn mynd i Lundain i dderbyn hyfforddiant i fod yn heddwas yn y "Met". Dychwelyd i'w gynefin am gyfnod, ac yna rhyw 10 mlynedd yn ôl, symud i Sbaen, ac ymgartrefu yno hyd at ei farwolaeth sydyn.. 'Roedd Meuryn yn berson hoffus a charedig a oedd wrth ei fodd yn cymdeithasu.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Jerusalem a Mynwent Coetmor ar fore Sadwrn, 23 Mawrth, gyda'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu. Cyflwynwyd teyrnged i Meuryn ar ran y teulu gan Gissella. Mrs. Menai Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth fawr ac annisgwyl.

*Mrs. Enid Anne Cooney*

Yn Ysbyty Gwynedd ar 9 Mawrth, bu farw Mrs. Enid Anne Cooney, 3 Glan Ffrydlas, yn 79 oed. Priod ffyddlon Mr. John Cooney a mam annwyl i Ffion a Catherine, ac yn fam yng nghyfraith garedig.. 'Roedd yn nain hoffus i Evan, Vaughan, Adam, Euan ac Alyce , ac yn chwaer i Alwyn a Beti Wyn. 'Roedd Enid yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. H. Williams, Adwy'r Nant, ac yn aelod ffyddlon yn yr Eglwys Gatholig ym Methesda , ac wedyn ym Mangor.

Bu'r gwasanaeth ddydd ei hangladd yn Eglwys Gatholig Bangor a'r Amlosgfa, gyda'r Tad Morran yn gwasanaethu ac aelodau'r eglwys yn ymgymryd a'r darlleniadau. Claddwyd ei llwch ym Mynwent Coetmor ddydd Llun, 1 Ebrill. 'Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch chi John, a'r teulu i gyd.

*Mrs. Doris Catherine Jones*

Ar 16 Mawrth bu farw Mrs. Doris Catherine Jones, 27 Maes Coetmor yn 97 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Hugh Alun Jones, mam hoffus Julie, Lynda, John a Clifford. Mam yng nghyfraith Tony a'r diweddar Derek. Chwaer i Les a nain annwyl i Jason, Rhian, Chris, Dianne ac Emma, a hefyd yn hen nain. 'Roedd yn aelod o Eglwys Crist Glanogwen ac yn hoff o fynychu'r gwasanaeth ar fore Mercher. 'Roedd wrth ei bodd yn cael sgwrs ond yn wraig annibynnol iawn.

Bu'r angladd ddydd Iau, 28 Mawrth yn Amlosgfa Bangor ac fe gladdwyd ei llwch ym Mynwent Eglwys Coetmor. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Christina McCrea. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

*Mrs. Buddug Hughes*

Yn dawel ar 25 Mawrth, yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw Mrs. Buddug Hughes, 22 Ffordd Carneddi yn 91 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Ernest Hughes (Siôn Insiwrans), mam garedig i Gwyn a Gerallt, a mam yng nghyfraith i Eva a Catrin. Nain hoffus a charedig i Rebecca, David a Manon, a hen nain i Llinos ac Angharad.. Bu'n gweithio mewn fferyllfeydd ym Mhorthaethwy,

Bangor, ac yna Bethesda. 'Roedd yn wraig hoffus a charedig, ac yn ofalus iawn o'i theulu. Wedi ei phriodas yng Nghapel Salem Carneddi bu'n aelod yn y Capel Mawr, Bethesda, ac yna yng Nghapel Carmel Llanllechid, ble'r oedd yn aelod fyddlon hyd nes i afiechyd ei chaethiwo.

Cynhaliwyd ei hangladd fore Llun, 1 Ebrill, gyda gwasanaeth yng nghartref Gerallt a Catrin yn y Gaerwen, ac yna yng Nghapel Carmel a'r amlosgfa. Yn gwasanaethu 'roedd ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, a'i chyn-weinidog, y Parchedig Geraint Hughes, Pwllheli. Mrs. Helen Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn a chwi fel teulu i gyd.

**Yr Eglwys Unedig**

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n methu dod i'r oedfaon a gobeithiwn y gorau i bawb ohonoch.

Fel eglwys, cydymdeimlwn ag Alan ac Alwenna Puw, Rhodri a Rheinallt, a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli Meuryn yn Sbaen. Bu'r anladd yn yr Eglwys fore Sadwrn, 23 Mawrth, dan ofal y Parchedig Dafydd Coetmor Williams.

Braf gweld Alan wedi gwella erbyn hyn ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Mae'r oedfaon yn dal yn fendithiol iawn, ac yn cael cynulleidfa deilwng i bob un. Croeso i unrhyw un ymuno â ni yn yr oedfaon. Diolch i Ceri am lenwi i mewn yn ardderchog.

Mae plant yr Ysgol Sul â'u hathrawon yn ymuno â ni ar ddechrau oedfa'r bore. Maent yn gwrando yn astud ac yn ymateb yn ardderchog. Braf yw eu gweld mor hapus wrth ymuno â ni!

Mwynheir y baned a'r sgwrs ar ôl oedfa'r bore gyda nifer dda yn ymuno yn y festri. Hefyd y baned bore Iau yn cael presenoldeb da.

Llongyfarchiadau i Medi Williams ar ddod yn hen nain yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i bawb o'r plant sydd wedi mynd drwy Eisteddfod yr Urdd sirol yn barod am y genedlaethol. Pob lwc iddynt!

*Y Cyhoeddiadau*

Ebrill 21 (Sul y Pasg): Parchg. Megan Williams.
Ebrill 28: Trerfniant Mewnol.
Mai 5: Mr. Richard Ll. Jones.
Mai 12: Trefniant Mewnol.
Mai 19: Oedfa (5 o'r gloch.)

Gwnaed casgliad arbennig tuag at y dinistr ym Mozambique ar Sul, 31 Mawrth. Diolch i bawb am ddod a'u blychau cenhadol i'w gwagio. Diolch i Ceri a Denis am eu gwaith yn cyfri'r arian.

*Y Gymdeithas*

Croesawyd Mererid Mair o Gaernarfon gan Joe, ein llywydd. Cawsom noson ardderchog ganddi ar lafar ac ar gân a\m y llefydd yr oedd wedi byw ynddynt. Diolchwyd iddi gan Barbara Jones, Talybont, ac i ferched y baned, Rita, Doris a Bessie.

**Eglwys Crist, Glanogwen**

*Gwasanaethau*

**Pob Bore Sul:**
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb

**Pob bore Mercher**:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Y Pasg**

**Dydd Gwener y Groglith**:
Gwasanaeth 'Wrth y Groes' am 2 y prynhawn

**Sul y Pasg**

**6 y bore**: Gwasanaeth yn y maes parcio ger Llyn Ogwen i groesawu'r diwrnod.
**8 y bore:** Gwasanaeth Cymun yn Eglwys Glanogwen
**11 y bore**: Gwasanaeth Cymun Corawl arferol yn Eglwys Glanogwen
Croeso i bawb i'r gwasanaethau fel arfer

*Conffirmasiwn*

Ar Sul y Pentecost, Mehefin 9fed, bydd Esgob Bangor yn gweinyddu gwasanaeth conffirmasiwn yn Eglwys St Mair, Tregarth. Os oes diddordeb gan rhai i gael eu conffirmio, cysyllter â'r Parchedig John Matthews ar 01248 364991 cyn gynted â phosib.

*Profedigaethau*

Unwaith eto y mis hwn, trist yw cofnodi profedigaethau i deuluoedd yr eglwys. Ddiwedd mis Mawrth, bu farw Mr Len Williams, Ffordd Gerlan, mewn byr amser ar ôl colli Megan ei wraig, a chydymdeimlwn unwaith eto a'r teulu oll.

Yna, ar Fawrth 16, bu farw Mrs Doris Jones, Maes Coetmor, a fu'n ffyddlon a gweithgar ym mywyd yr eglwys am flynyddoedd maith. Mae'n cydymdeimlad yn ddiffuant a Julie, Linda, John a Cliff a'r teuluoedd yn eu colled.

**Sefydliad y Merched Carneddi**

Estynnodd ein llywydd groeso cynnes iawn i'r aelodau i gyfarfod 4 Ebrill, serch bod y tywydd yn ddigon oer y tu allan. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carys, Gwen a Ceinwen oedd yn methu bod gyda ni oherwydd anhwylustra.


Darllenwyd cofnodion mis Mawrth gan Gwyneth ac aeth Nicola ymlaen i ddarllen cynnwys y llythyr misol, ac fe drafodwyd nifer o bynciau oedd yn berthnasol i'n sefydliad ni. Llongyfarchwyd rhai o'r aelodau oedd wedi mynd ati i wau sgwariau a'u rhoi gyda'u gilydd i wneud blancedi. Llongyfarchwyd hwy hefyd, nid yn unig am wau ond am eu bod wedi cael eu noddi am y swm o £60 a fydd yn cael ei drosglwyddo i Ffederasiwn Gwynedd a Chaernarfon. Da iawn chi am wneud yr ymdrech. Bydd y blancedi yn cael eu cyflwyno i Plas Ogwen!

Cawsom noson wahanol i'r arfer heno, oherwydd bod Carol Houston o sefydliad Brynrefail hefo ni. Cawsom noson llawn hwyl a chwerthin yn chwarae gêm Boccia, sydd yn debyg iawn i bowls a chwaraeir ar lawntiau gwyrdd! Ond y ddau beth oedd yn wahanol oedd ein bod yn cael eistedd a rowlio peli ar hyd garped Cefnfaes. Y rownd gyntaf oedd heno, ac felly bydd rhai o'r aelodau yn mynd ymlaen i gynrychioli Carneddi yn yr ail rownd yn Llanberis. Daethom yn ail flwyddyn diwethaf, felly mae'n rhaid gwella a gobeithio ennill y gystadleuaeth eleni!

Diolchwyd i Carol am noson hwyliog iawn gan Rosemary, a hefyd i'r merched am y baned. Enillydd y wobr lwcus, rhoddedig gan Mair Jones, oedd Annwen.

**Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen**

Dyma Cynrig Hughes, Rallt Uchaf, Pentir ar ddiwedd ei ddarlith wych yng nghyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yn festri Jerusalem ar nos Lun, 11 Mawrth. Darlith Goffa Rhiannon Rowlands oedd hon ac fe ddaeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i wrando ar Cynrig yn rhannu ei waith ymchwil trylwyr ar y testun Plas Pentir, e.e. cawsom wybod nad yw'r Plas yn bod bellach, er bod arwydd Lôn Plas yn amlwg i bawb sy'n teithio ar y fordd rhwng Llandygai a Rhiwlas. Noson o addysg lleol difyr yn glo teilwng i'r tymor. Diolch Cynrig!



# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn âg Ann a Graham Ellis, 3. Cae Bach. Bu farw Justin, eu hail fab, yn ddisymwth ym Mlaenau Ffestiniog ar ddechrau'r mis diwethaf. Cofiwn yn annwyl am y teulu oll yn eu galar.

**Ymddeoliad**
Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Ann Owen, 15 Dolhelyg, sydd newydd adael ei swydd fel Rheolwraig Gwasanaethau Domestig yn ysbytai Gwynedd a Môn, ar ôl cyfnod o'n agos i 44 o flynyddoedd.
Pob bendith iti, Ann. Gobeithio y cei gyfle i fwynhau cwmni'r plant bach, i dendio'r ardd a gwneud yr holl bethau eraill rwyt wedi edrych ymlaen atynt ar ôl gorffen gweithio.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Dom a Gemma, Pentrefelin, ar enedigaeth eu merch fach, Minnie, sy'n fis oed bellach. Mae Harley yn falch iawn o'i chwaer fach newydd, ac wrth ei fodd yn ei dangos i bawb.

**Babis newydd !**
Llongyfarchiadau i Lis a Richard, Glan Bethlehem ar ddod yn Nain a Taid unwaith eto. Ganwyd efeilliaid , Aaron Robert a Luke Richard, i'w merch ieuengaf, Cindy, a'i chymar Andrew, yn Nwygyfylchi.Mab ieuengaf Rosalie, 27, Cae Gwigin ydi Andrew. Llongyfarchiadau iddi hithau ar ddod yn nain am y tro cyntaf. 'Dw i'n siwr bod Yncl Darren wedi gwirioni efo'i ddau nai bach.

**Brysia wella!**
Treuliodd Cadi, 14 Dolhelyg ychydig o ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd, wedi iddi ddioddef poenau annifyr yn ei choes. Dymunwn wellhád llwyr a buan iddi. Mae Eleri, Deion a Cadi yn edrych ymlaen yn arw at gael cwmni eu cefndryd bach newydd pan ddônt i Dalybont am dro.

**A mwy o longyfarchiadau!**
Pleser ar y mwyaf oedd cael darllen yn ' Newyddion Llais Gwynedd ' bod tîm Canolfan Ail-gylchu Llandygai wedi ennill Gwobr y Bobl am eu gwasanaeth eithriadol, a'u parodrwydd i gerdded yr ail filltir â gwên ar eu gwynebau.. Aelod gwerthfawr o'r tîm hwnnw yw Dylan Williams, Dolhelyg. Da iawn chdi, Dylan.
Does neb yn gwybod yn well na thrigolion Talybont am dy gymwynasgarwch a'th barodrwydd i'w helpu bob amser. A fel petai hynny ddim yn ddigon, mae rheswm arall i longyfarch Dylan y mis yma, gan iddo ddathlu penblwydd arbennig iawn y diwrnod o'r blaen. Ymlaen i'r hanner cant nesa' rwan, Dyl!




**Newyddion da**
Mae Lauren, 80 Bro Emrys, wedi cael ei derbyn gan Brifysgol Bangor ar gwrs 'Project Design'. Mae'r teulu a'i ffrindiau i gyd yn Nhalybont yn dymuno pob llwyddiant iddi yn arholiadau'r Haf ac yn ei hastudiaethau pellach.

**Ymwelydd annisgwyl**
Ar ddydd Iau ola'r mis, daeth Glenys Barrows am dro i Dalybont i edrych am rai o'i ffrindiau bore oes. Bu hithau, a dau o'r tri mab, yn aros yn



**Dyma lun o Glenys a dynnwyd yn ystod ei hymweliad.**

Llandegfan yn ymyl Emlyn, ei brawd hynaf. Cafodd groeso cynnes gan ei chyd-ddisgyblion yn Ysgol Llandegai a Dyffryn Ogwen, oedd yn falch iawn o'i gweld ar ôl blynyddoedd maith.
Fel 'Glenys Jones Tyddyn' (Tyddyn y Berth) mae trigolion hŷn yr ardal yn ei chofio, gan mai yn y fan honno y treuliodd ei blynyddoedd cynnar, cyn symud i fyw i Gaerhun.
Ar ôl gorffen yn yr ysgol, aeth i hyfforddi fel nyrs yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl, a phenderfynu mynd i weld y byd.
Cyfarfu â'i diweddar ŵr, Dick, yn yr Unol Daleithiau, lle bu'n Heddwas yn Efrog Newydd. Buont yn byw yn New Jersey, ym Maine ac, yn ddiweddarach, yn Seattle.
Mae Cymraeg Glenys yn dal yn gwbl rhugl. Yn hynny o beth, mae hi'n debyg iawn i'w ffrind pennaf o Dalybont, sef Glenys 'Hughes', Cae Gwigin, (chwaer Margaret Fearnley) sy'n byw y tu allan i Lundain ers degawdau. Mae'r ddwy wedi ymweld â'i gilydd yn gyson hyd y blynyddoedd.

**Eglwys St Cross, Maes-y-Groes**
*Priodas*
Llongyfarchiadau i Chloe Cunniff a Daron Evans ar achlysur eu priodas yn Eglwys St Cross bnawn Sadwrn, Ebrill 6ed, â'r haul yn tywynnu ar ôl sawl diwrnod gwlyb a gwyntog. Mae Chloe a Daron yn ymagartrefu yn Llangefni, a dymunwn iddynt fywyd priodasol llawn hapusrwydd.
*Gwasanaethau'r Sul:*
Ebrill 21ain, 11.15 a.m. – Cymun Pasg
Ebrill 28ain, 11.00 – Cymun
Mai 5ed, 11.00 a.m. – Cymun
Mai 12fed, 11.00 a.m. – Cymun yn ôl Estyniad (Sacrament Neilltuedig)
Mai 19eg, 9.45 a.m. – Cymun
Mai 26ain, 11.00 a.m. – Cymun
*Garddwest y Tair Eglwys:* Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg yng ngardd y Ficerdy, Pentir

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Ebrill 21: Sul y Pasg: Parchg. Cledwyn Williams, Bangor.
Ebrill 28: Gweinidog.
Mai 05: Parchg. W.H. Pritchard, Trearddur.
Mai 12: Gweinidog.
Mai 19: Cymanfa/Oedfa Ysgolion Sul ym Methlehem am 10.30.
Mai 26: Gweinidog.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.
Ysgol Sul am 10 yb. Croeso i aelodau newydd.






Harddwch y gwanwyn a ddaeth yn gynnar i Fethesda eleni

*Bwrlwm Bethlehem*
Yn ein cyfarfod olaf cyn y Pasg, a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, cawsom y pleser o longyfarch Elfed a Rita Bullock oedd yn digwydd dathlu 49 mlynedd o fywyd priodasol ar yr union ddiwrnod hwnnw. Cafodd yr aelodau i gyd damaid bach o'r gacen, gan edrych ymlaen am gael tamaid mwy pan fydd y dathliad mawr flwyddyn nesaf! Bydd y Bwrlwm yn ail-gychwyn brynhawn dydd Iau, 2 Mai am 2.15. Croeso i bawb.

*Yr Ysgol Sul*
Cynhaliwyd y cyfarfod olaf cyn gwyliau'r Pasg ar fore Sul, 7 Ebrill gyda'r plant yn gwneud eu gweithgareddau arferol. Ond yn ychwanegol 'roedd yn rhaid canu penblwydd hapus i Anti Barbara gan ei bod yn dathlu ei phenblwydd y diwrnod hwnnw. 'Roedd pawb yn mynd adref gyda gwên fawr ar eu hwynebau ac wy pasg yn eu dwylo – anrheg oddi wrth yr Ysgol Sul! Byddwn yn ail-gychwyn ar fore Sul, 5 Mai, pan fydd y plant yn paratoi at yr Gymanfa/Oedfa Ysgolion Sul a gynhelir ym Methlehem ar 19 Mai.

*Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymmraeg*
Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Oedfa Deuluol Apêl Madagascar a gynhaliwyd yng nghwmni'r gweinidog, y Parchedig John Pritchard, a phlant yr Ysgol Sul ar 24 Mawrth. Diolch hefyd am y gefnogaeth ardderchog a gafwyd i Noson Goffi Madagascar yn y festri ar nos Fercher, 27 Mawrth. 'Rydym wedi medru anfon siec am £500.00 fel cyfraniad capel Bethlehem i'r Apêl.




## NEUADD OGWEN

Digwyddiadau Cymunedol a Dosbarthiadau

Marchnad Ogwen
Bob mis ar yr ail ddydd Sadwrn y mis
o 9am – 1pm
ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk

Dosbarthiadau Pilates
Dosbarthiadau Llun 12pm + 6.30pm & Iau 11am + 6.30pm
07826566091
elsiebar73@gmail.com

Yoga efo Mark
bob nos Fawrth 6.30pm

Yoga efo Mary
bore dydd Mercher 10am
yogatastic@hotmail.com

Yoga efo Dawn
bore dydd Gwener 10.30am

Bocsio Cic
bob nos Fercher 6.30pm
07769584646
llanbidinodin@gmail.com

Clwb Drama Crawia
bob nos Iau 5-8pm
Archebu lle
post@neuaddogwen.com

Cwmni Drama'r Llechen Las
bob nos Iau 7.30-9pm

## EGLWYS GELLI, TREGARTH YN DATHLU 150 MLYNEDD

### APÊL AM LUNIAU

Bydd Eglwys Gelli yn dathlu 150 o flynyddoedd ym mis Mehefin Os oes gan rhywun luniau a fuasai o ddiddordeb (e.e. priodasau, bedydd, digwyddiadau a.y.y.b) byddem yn ddiolchgar iawn pe caem eu benthyg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa.

**Cysylltwch â Rosemary,**
**19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.**
**Ffôn : 01248 600412**

Dilynwch ni ar trydar

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000)*


# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru ger Abergele ar ddechrau mis Mawrth a thrafodwyd effaith y toriadau ar wasanaethau cynghorau sirol. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol ystyried ffyrdd newydd o ariannu'r cynghorau fel treth ar dir, treth ar dwristiaeth a threth incwm leol .

Cynhaliwyd cyfarfod misol o Blaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon , lle derbyniwyd adroddiad bod toriadau'r Toriaid yn cael mwy o effaith ar ferched na dynion. Anfonwyd cynigion i Gynhadledd Plaid Lafur Cymru a chafwyd anerchiad am "Undebau efo'i Gilydd".

Y bore wedyn, cynhaliwyd bore coffi blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda Mary Gwen (ymgeisydd San Steffan) a BettyWilliams (cyn aelod seneddol), gan wneud elw parchus ar gyfer treuliau'r gangen.

Yng nghanol y mis cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen, lle derbyniwyd adroddiad am waith Llywodraeth Lafur Cymru (e.e. 30 awr o "addysg a gofal plentyn" ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio a pharhâd y cynllun i ryddhau prosiectau hydro cymunedol rhag dalu trethi), Cyngor Gwynedd (e.e. codi treth cyngor o 5.8% yn hytach na 5.5% i osgoi toriadau amhoblogaidd a gwario £300,000 i gyflogi 20 prentis ) a Chyngor Bethesda (e.e. y penderfyniad gan yr heddlu i ostwng nifer y plismyn yn Ogwen i un plismon cefnogol a chyfanswm o £4,200 mewn grantiau i gymdeithasau ).

Tua diwedd y mis roedd cefnogaeth y Blaid Lafur i'r rali gwrth Brexit ym Mangor yn amlwg a phenderfynwyd sefydlu grwp o fewn Plaid Lafur Arfon i hyrwyddo'r Gymraeg.

Gydag aelodau o'r gangen yn cymeryd rhan yn mhob un o'r achlysuron uchod, y mae'n amlwg bod mis Mawrth wedi bod yn brysur iawn iddynt.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7:30 y.h. ar yr ail Nos Fercher yn mis Mai yng Nghanolfan Cefnfaes (Bethesda), gyda phwnc trafod yn yr ail hanner.


**SIOP OGWEN**

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**







Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru – North Wales Society for the Blind – Goleuni

**Gwirfoddoli gyda ni**
Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu ein helusen, felly os oes gennych unrhyw amser hamdden o ddydd Llun i ddydd Gwener, cysylltwch â ni.

Rhesymau dros wirfoddoli
Mae gan ein gwirfoddolwyr cymhellion ei hunain am fod yn rhan o'r tîm - dyma rai o'r rhesymau pam y dylech chi gofrestru heddiw!

- Cyfle i weithio mewn tîm cyfeillgar, i wneud ffrindiau newydd a chwrdd â grŵp amrywiol o bobl
- Y cyfle i wneud cyfraniad amhrisiadwy i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
- Yr amser i ddatblygu'ch sgiliau rhyngbersonol ac eich hyder
- Y gallu i ennill profiad gwaith gwerthfawr i'w ychwanegu ar eich CV ac i ddysgu sgiliau newydd

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i:
- Weithio y nein siop elusen
- Helpu gyda casgliadau
- gyrrwyr gwirfoddol

Os oes gennych unrhyw amser sbâr ac mae gennych ddiddordeb cysylltwch a ni:
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
325 High Street, Bangor,
Gwynedd, LL57 1YB

01248 353 604
admin@nwsb.org.uk

www.nwsb.org.uk
Twitter @nwsb1
Facebook.com/pages/
Cymdeithas-y-Deillion



BYSUS D. P. Owens RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos




**JOHN ROBERTS**



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

# Croesair Llais Ogwan




**AR DRAWS**

5 Anifeiliaid y traeth (5)
7 Cïaidd a chreulon (5)
9 Pica, pica pluog du a gwyn (4)
10 Dyddiau o seibiant o'r gwaith i lawer (8)
11 Canu mewn ----, dim nodau drwg (4)
12 Doniol a grŵfi di'r dyn sy'n gwneud i chi chwerthin (8)
14 Golwg neu drem (8)
16 Yn chwys doman wrth wrando ar albwm y grŵp 'Yr Eira' *(2017)* (4)
17 Aeth Ceiriog yno i chwilio am y gwcw wrth fynd adref (8)
19 Y "wen fach" ddewr, flodeuog (4)
20 A525 – O Ddinbych i ----- (5)
21 Ymyl y sawl a gredo yn gywir (5)

**I LAWR**

1 Mae'n gyfrifol am warchod eiddo neu arian pobl eraill (12)
2 Fel 19 Ar Draws (6)
3 Mae deuddeg ohonynt yn huno yn Ystrad Fflur yn ôl TGJ (4)
4 Hyfforddiant i orffen ei gwrs yn llwyddiannus (6)
6 Cymryd lle rhywun arall yn annheg (7)
8 Am byth! (12)
13 Gwych a rhagorol wrth fynd a dwad (7)
15 Swagro a jarffio (6)
16 Boomerang, Cwmni Da a Tinopolis – cwmnïau ar gyfer hwn (6)
18 Bod ag arswyd (4)

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2019**

**AR DRAWS** 1 Rhosmari, 5 Rhodio, 8 Gwelw, 9 Destlus, 10 Mynyddig, 11 Berfa, 12 Dagrau, 14 Blagur, 17 Hetar, 19 Albanes, 22 Ucheldir, 23 Nodyn, 24 Gwisg, 25 Gwragedd

**I LAWR** 1 Rhigwm, 2 Saesneg, 3 Arwydd, 4 Indigo, 5 Rhosybol, 6 Dolur, 7 Oes Gafr, 12 Deheuig, 13 Am Redeg, 15 Ganedig, 16 Caerog, 18 Trefi, 20 Bonwr, 21 Senedd

Mi wyddoch un mor glên a maddeugar ydw i weithiau ! Wel dyma un o'r adegau hynny. Mae nifer sylweddol ohonoch, (tua'r hanner), wedi camsillafu 15 I Lawr 'ganedig', gan roi 'genedig'. Mae 'genedigol' yn gywir wrth gwrs ond 'a' sydd yn 'ganedig'. Mae tri hefyd wedi camsillafu 12 I Lawr 'deheuig' gan gynnig 'dyheuig', sy'n cael ei ynganu felly weithiau ar lafar. Ond maddeuant i bawb y tro yma, er fod yr enillydd wedi cael y ddau ateb yna yn gywir !

Dyma'r rhai anfonodd atebion : Delyth Williams, Penisarwaun; Mair Williams, Gill King, Mynydd Llandygai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; John Huw Evans, Llanberis; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; M.A.Jones, Rachub; Evelyn Lupson, Pensby, Wirral; Gareth William Jones, Bow Street; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Jones, Llanfairpwll; Dilys Parry, Elwyn a Margaret Jones, Rhiwlas; Adrian Poulton, Pentir; Gwilym D. Evans, Niwbwrch; Iona Williams, Llanddulas; Doris Shaw, Bangor; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont, Dilys Wyn Griffith, Abergele.

Yn fuddugol y tro hwn am atebion hollol gywir y mae Gwilym D. Evans, Heddfan, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6T

Atebion erbyn 3ydd Mai, 2019 ***fan bellaf*** i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 3ydd Mai i 'Croesair Ebrill'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw**

**Cyfeiriad**

# Ysgol Pen-y-bryn

**Gala Nofio Bangor/Ogwen**
Bu criw o'r ysgol yn cystadlu yn Gala Nofio ysgolion Bangor Ogwen ar ddechrau'r mis. Da iawn chi am fod yn esiampl wych ac am ddod ag enw da i'r ysgol.

**Sioe Amgylcheddol y brodyr Gregory**
Fe ddaeth y Brodyr Gregory a'u ffrindiau i'r ysgol o gynllun Trefi Taclus i gynnal sioe Ail-gylchu ar ddiwedd y mis. Roedd na ddawnsio, llawer iawn o ganu a hyd yn oed rapio! Bu i'r plant ddysgu llawer o'r cyflwyniad a bu i bawb fwynhau'n arw!

**Cogurdd**
Llongyfarchiadau gwresog i Lois am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Sir Cogurdd. Coginiodd Lois Sgons afal a chaws ynghyd a Chawl llysiau a phesto di-gnau! Pob hwyl iti Lois yn y rownd derfynol yng Nghaerdydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

**Opera Cenedlaethol Cymru**
Fe gawsom gip-olwg mewn i fyd Opera mewn gweithdy gan Opera Cenedlaethol Cymru. Cawsom wledd o gemau, canu a pherfformio rhan o Opera Hanzel a Gretel. Fe fyddwn ni'n mynd i Venue Cymru ym mis Mai i Gyngerdd Opera Ysgolion Cymru. Diolch i'r Opera Cenedlaethol am y profiad!

**Grŵp Eco**
Llongyfarchiadau fil i'r grŵp Eco am dderbyn baner werdd yn ddiweddar. Mae'r grŵp a'r ysgol gyfan wedi gweithio'n galed iawn i dderbyn y wobr yma. Rydym fel ysgol yn hynod falch ac yn edrych ymlaen i weithio at y wobr nesaf.

**Diwrnod y Trwynau Coch**
Dyma ni'n dathlu diwrnod y Trwynau Coch er mwyn casglu arian tuag at Comic Relief. Fe ddoth pawb i'r ysgol yn eu dillad eu hunain ac yn gwisgo'u ' gwalltiau gwirion'. Cawsom gyfle hefyd i baentio gwinedd, rhoi lliw yn ein gwalltiau a chael tatws!









## Codi Sbwriel

Dan arweiniad Esyllt Williams, Swyddog Eco Ysgolion Cymru, aeth dosbarth Glyder draw am Hen Chwarel Pantdreiniog i gasglu 'sbwriel. Mewn hanner awr fe gasglwyd cyfanswm o 39.5KG o 'sbwriel. Casglwyd rhan helaeth o eitemau y gellir bod wedi'u hail-gylchu! Neges bwysig i drigolion Pesda gan blant Glyder yw "Rhowch eich 'sbwriel mewn bin, a sicrhewch ei fod yn mynd i'r bin cywir! Diolch!".

# Y Dyddiadur toriadau (8)

## Detholiad gan Derfel Roberts


*(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)*

**Hen rigymau**

Ar gyfer Mawrth 1933 mae'r gohebydd yn dweud,

*"Yn y flwyddyn 1908 gofynnais i blant yr ysgol ysgrifennu hen benillion telyn a hen rigymau ar bapur i mi. Gwnaethant hynny mewn hwyl difyrus a chesglais innau'r papurau ac yna gofynnais i eneth neilltuol o'r dosbarth eu copio mewn llyfr gyda'i gilydd. Trawodd fy lygaid ar y casgliad hwn ddoe a phleser mawr i mi oedd darllen drostynt eto. Yn eu mysg roedd rhai penillion o safon lenyddol uchel a geir mewn casgliadau cyhoeddedig ond nid at y rhai hynny y bwriadaf alw eich sylw. Dyma'r rhai a hoffai'r mwyafrif o'r plant".*

(yn anffodus ni ddywedir pwy yw'r gohebydd sy'n ysgrifennu'r geiriau uchod. Gall fod mai John Owen, Garnedd Wen oedd y gohebydd dan sylw ac mai athro ysgol oedd o ar ddechrau'r ganrif ddwytha'.)



Yna ceir detholiad o rigymau plant cyfarwydd ac eraill sy'n llai adnabyddus. Isod, ceir detholiad o'r cerddi yn union fel maen nhw'n ymddangos yn y dyddiadur.

A fuoch chi 'rioed yn morio?-
Do mewn padell ffrio;
Chwythodd y gwynt fi i'r Isle o' Man
A dyna lle roeddwn i'n crio.

Gyrru, gyrru i Gaer
I briodi merch y Maer;
Gyrru, gyrru adra
Wedi priodi er ys dyddia.

A welsoch chi wynt, a welsoch chi wlaw?
A welsoch chi dderyn bach ffordd draw?
A welsoch chi ddyn a bwtsias lledar
Yn saethu llong i frenin Lloegar?

Mae fy nghariad wedi digio,
Six o herrings bedw i'm hitio,
Mi gaf gariad newydd eto,
Gwell na'r hen un drois i heibio.

Hen wraig bach yn byw mewn giatws
Aeth i'r afon i olchi tatws,
Aeth y tatws gyda'r afon,
A'r hen wraig yn sbio'n wirion.
Ar y ffordd wrth fynd i Ruthyn
Gwelais ddyn yn gwerthu brethyn,
Gofynnais iddo faint y llath,
Fod arnaf eisio siwt i'r gath.

Dacw dy, dacw do,
Dacw efail Shon y go';
Dacw'r wraig yn curo'r engan,
Dacw Shon yn p'doli'r farlan.

Bryngo fawr a Bryngo fechan,
Pont Pensarn a dau Lwynogan,
Tyddyn Pwyth, Gefail Domos
Lle bu'm i yn cysgu echnos.

*I barhau*

CSL
GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM

Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com

## Marchnad Ogwen

Yn anffodus, ni chafodd newyddion y Farchnad am fis Mawrth ei gynnwys yn y papur y mis diwethaf. Felly, dyma'r newyddion na chafwyd –

Croeso mawr i'n Stondinau bwyd newydd – Caws Castell Gwyn, sy'n gaws buwch meddal gyda gwahanol flasau, a Bread and Butters, stondin fara Jay Butters o Drefriw. Erbyn hyn, mae Marchnad Ogwen yn llawn ac ni allwn gynnig lle i stondinau newydd ar hyn o bryd.

Os ewch chi ar dudalen 'facebook' Marchnad Ogwen, fe welwch ein bod yn cynnig gwobr o £25 i'w wario yn y Farchnad. Dyma sydd rhaid i chwi wneud -

α) Datgan eich bod yn hoffi'r dudalen.

β) Tagio 3 o bobl eraill i hoffi'r dudalen ac i rannu'r neges.

Byddwn yn tynnu enw allan o het i dderbyn y wobr ym Marchnad Sioe Dyffryn Ogwen. Gobeithio y cawn lawer mwy o ffrindiau i Farchnad Ogwen gyda'ch help chi.

A dyma newyddion mis Ebrill.

Wedi cyfnod hir gyda'r Farchnad, mae Gavin Bee wedi rhoi gorau i'w stondin Cig Blas yr Allt a'i selsigod blasus. Diolch yn fawr iawn i Gavin am ei wasanaeth. Y newyddion da yw - mae Ashley o siop gig 'Johnny 6' o Fangor yn dod yn ei le mis Mai. Mae Ashley yn parhau i ddefnyddio rysáitiau gwreiddiol y siop i'w gynhyrchion a dilyn ôl traed yr enwog 'Johnny 6'. Croeso mawr i Ashley - sy'n byw ym Methesda - atom ni.

Yr NSPCC sy'n cynnal y Stondin Elusen mis Mai. Croeso atom unwaith eto.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar 'facebook'

Croeso cynnes atom i Farchnad Mai 11eg.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

## Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**
I ddathlu Gwyl Ddewi yn y Cylch cawsom noson o adloniant yng nghwmni dau aelod o'r Brifysgol ym Mangor sydd yn astudio cerddoriaeth. Dan arweiniad Marian Bryfdir bu Steffan Dafydd o Rhuthun a Catrin Hedges o Abertawe yn canu amrywiaeth o ganeuon i'n diddori. Caneuon hyfryd yn cynnwys opera a hen alawon, hyfryd oedd gwrando ar "Y Blodyn Gwyn" a chaneuon traddodiadol eraill. Diolch i Marian, eu hathrawes am baratoi a rhoi esboniadau am y caneuon ac am y dewisiadau amrywiol i'r bobl ifanc talentog berfformio. Tybiwn fod dyfodol disglair i'r ddau ifanc a dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfa. Diolchwyd i Marian gan Mair am ei gwaith trylwyr ac i Steffan a Catrin am eu cyflwyniadau. Pleser oedd cael y ddau i ymuno â ni wedyn i swper bendigedig wedi ei baratoi gan aelodau'r Cylch. Diolch i bawb am noson hyfryd!

**Yn yr Ysbyty**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Hefin Parry, Tŷ Capel, Caerhun sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

**Bingo**
Daeth nifer dda iawn i'r noson Bingo hwyliog yn y Ganolfan ar 1 Mawrth i godi arain at y Ganolfan Datblygu Addysg ym Mangor pryd y codwyd £260. Diolch yn fawr iawn i Carol a'i theulu am drefnu'r noson a chasglu gymaint o wobrwyon da at y noson. Aeth nifer adref yn hapus iawn gyda'u gwobrwyon ! Diolch i bawb am gefnogi. Bydd y Bingo nesaf ar 12 Ebrill yn y Ganolfan am 7yh, a'r elw yn mynd tuag at Lloches i Ferched, Bangor.

# Newyddion o Bartneriaeth Ogwen

*Cymunedau Mentrus yn Ysbrydoli*
Ar yr 8fed o Fawrth 2019, cynhaliwyd diwrnod arbennig i ddathlu mentergarwch Dyffryn Ogwen. Yn ystod y dydd cafwyd cyflwyniadau a gweithdai yng nghwmni mentrau cymunedol y Dyffryn yn cynnwys Clwb Rygbi Bethesda, Tabernacl - Neuadd Ogwen, Caban Cysgu Gerlan, Ynni Ogwen a Phartneriaeth Ogwen. Yn ogystal, cafwyd cyflwyniadau gan fentrau cymdeithasol o Flaenau Ffestiniog a Phenygroes gan roi cyfle i rannu profiadau a syniadau. Roedd y diwrnod yn gyfle i Bartneriaeth Ogwen rannu gwybodaeth am ein gwaith datblygu cymunedol a chafwyd adborth cadarnhaol i'r holl ddigwyddiad.







*Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen*
Bu Partneriaeth Ogwen yn llwyddiannus gyda cais grant Cronfa Gwirfoddol Gwynedd i osod cyfleusterau newydd yn y Llyfrgell. Mae'r cyfleusterau hynny yn cynnwys toiled i'r anabl, dodrefn i'r ystafell gymunedol a bocsys plannu i'w gosod tu allan. Bydd y toiled newydd yn gwella mynediad i'r anabl a diolch i gwmni Gwyndaf Hughes Cyf am y gwaith.
Ar y 19 o Fawrth, agorwyd arddangosfa hanesyddol newydd Tu Hwnt i'r Chwarel yn ystafell gymunedol y Llyfrgell. Mae'r arddangosfa yn olrhain hanes gweithwyr stad Penrhyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Rhoddwyd cyflwyniad byr gan Shaun Evans o Sefydliad Ystadau Cymru, Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen a Mari Beynon o gynllun Safle Treftadaeth Byd Unesco a braf oedd croesawu wynebau newydd i'r ystafell gymunedol. Bydd yr arddangosfa ymlaen tan yr 21ain o Fai 2019 ac ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau agor y Llyfrgell.

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Ffilm**
Diolch i Karen Duggan am noson o ffilm yn y neuadd. Diolch i Andrew, Dave, Alison a Lynda am helpu ar y noson. Pawb wedi mwynhau ! Noson i'w chofio!

**Clwb y Mynydd**
Bu aelodau'r Clwb yn dathlu Gŵyl Ddewi drwy gael Te Prynhawn yn y neuadd. Diolch i staff Caffi Coed y Brenin am y bwyd, a diolch i Alison a Jackie am weini arnom. Cafwyd prynhawn difyr iaw

**Y Neuadd Goffa**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Neuadd ar nos Fawrth, 23 Ebrill am 7 yh. Bydd croeso i chwi ar y noson. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth.

**Cerddwyr yn Diolch**
Hoffai Alison a Jude ddiolch i bawb am eu cefnogaeth tra yn cyflawni her arbennig yn ystod 2018. Balch o gadarnhau ein bod ni'n dwy wedi cerdded dros 1,000 o filltiroedd dros y flwyddyn er budd elusen Prostate Cancer UK, er cof Ceinion. Wedi arfer a'r milltiroedd bellach, felly dal i fynd.- ym mhob tywydd. Diolch eto!




**Brysiwch Wella**
Mae nifer o bobl y pentre wedi cael damweiniau yn ddiweddar, yn eu plith mae Pat Hart, Rene Williams ac Einir Frodsham, Dymunwn adferiad buan i chwi oll.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Sul 1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid.

*Gwasanaethau'r Pasg*
Dydd Gwener, 19eg Ebrill: 2 p.m.
Dydd Gwener y Groglith.
Bore Sul, 21ain Ebrill. 10 a.m. Dydd Sul y Pasg - Cymun Bendigaid

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn y gwasanaethau dros Ŵyl y Pasg.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sal ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi oll.

# Ysgol Llandygai

**Wythnos Cŵl Cymru**
Cawsom wythnos i'w chofio yn ddiweddar i ddathlu ein Cymreictod.

**Ioga Llythrennedd**
Daeth Leusa Mererid i gynnal sesiynnau Ioga gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chawsom ein tywys i fyd dychmygol Y Jyngl yn ei chwmni.Wythnos yn ddiweddarach gwelwyd rhai o'r eirfa oedd y disgyblion wedi ei ymarfer wrth symud yng ngwaith ysgrifenedig y plant – gwych, a diolch iddi am ei brwdfrydedd heintus.

**Ymweliad Sioe mewn Cymeriad**
Daeth Tudur Phillips i berfformio sioe Roald Dahl fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr ac roedd sioe Owain Glyndwr yn wych i gyfrannu at thema Dosbarth Tirion ar Oes Y Tywysogion.Y ddau actor yn hollol wefreiddiol ac wedi mwynhau yng nghwmni'r disgyblion.

**Disgo Cŵl Cymru**
Unwaith eto cawsom symud a mwynhau yn sŵn cerddoriaeth Gymraeg yn cynnwys Sosban Fach ,Trôns dy Dad a chaneuon Mr Morris ein prifathro. Diolch i Gav's Disgo.

**Cystadleuaeth**
Diolch i Anti Barbara ac Yncl Nev am ddod i feirniadu cystadleuaeth gwisgo fel cymeriad allan o lyfr. Llongyfarchiadau i Ifan Grimley fel Dewin Dwl ac i Dylan Gardener fel CMM sef cymeriad o lyfr Roald Dahl.

**Eisteddfod yr Ysgol**
Llongyfarchiadau i Caleb Handby ar ennill tlws llenor yr Eisteddfod am ei gerdd 'Y Castell'. Diolch am feirniadaeth annwyl ac adeiladol gan Iestyn Tyne. Llongyfarchiadau hefyd i Cody a Huw ddaeth yn ail a thrydydd yn y gystadleuaeth.

Roedd disgyblion Dosbarth Tirion wedi cyfansoddi ffanffer i ddathlu'r achlysur. Cafwyd perfformiad lliwgar iawn gan ddisgyblion Blwyddyn 2 yn y Ddawns Flodau. Diolch i bawb wnaeth yr achlysur yn llwyddiant.

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**
Roedd Mr Morris a Mrs Griffiths yn hynod o falch o ddisgyblion y Parti Cerdd Dant yn yr Eisteddfod yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen. Roedd eu hymddygiad i'w ganmol a'r canu yn swynol.

# Apêl Hen Gapel John Hughes Pontrobert, Maldwyn

## Canolfan Undod ac Adnewyddiad Cristnogol

Mae Ymddiriedolwyr y fangre hanesyddol a chysegredig hon mewn argyfwng oherwydd bod y tô yn gollwng, ac erbyn hyn mae'r pwyllgor llywio lleol yn apelio at Gymru gyfan yn y gobaith o godi digon o arian at ofynion CADW, sef dwy ran o dair o'r cyfanswm – sydd ar hyn o bryd yn agos at £8,000 ym marn y pensaer ymgynghorol – er mwyn gwneud cais am grant i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Chwilio yr ydym am bobl garedig a fyddai'n barod i 'brynu' llechen' am £10 yr un.

Os yw eich darllenwyr yn rhannu ein cred mai trysor cenedlaethol yw'r adeilad hwn gyda'i gysylltiad agos ag ANN GRIFFITHS, gobeithiwn y byddant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn anfon eu cyfraniadau at ein Trysorydd Mygedol, Mrs Beryl Vaughan, Tŷ Mawr, Llanerfyl, Y Trallwng, Powys SY21 0JD.

Diolch yn fawr iawn.
Nia Rhosier
Ysgrifennydd Mygedol

Dilynwch ni ar trydar

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Gwasanaeth Gwych**
Yn ystod mis Mawrth bu swydddfa bost Bethesda ar gau ac er bod fan bost y tu allan i siop Londis am ddau brynhawn, mae nifer sylweddol o bobl Bethesda a Gerlan wedi dechrau defnyddio Swyddfa Bost Llanllechid, Rachub. Yn ystod y cyfnod hwn bu perchnogion siop Rachub (Iain a Janet Scott) ar wyliau tramor ond gwnaed gwaith penigamp gan Rebecca Scott a'i merched (Esther, Katie a Wendy).

**Plant Dawnus**
LLongyfarchwn blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfodau Lleol Urdd Gobaith Cymru – gweler adroddiadau'r ysgolion.

**Hofrenyddion**
Yn ystod tywydd braf y mis bu hofrenyddion yr heddlu'n ymarfer glanio ger y ganolfan awyr agored.

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn yn dda i'r chwiorydd Taylor (Heather Williams ac Elaine Hughes) o FFordd Llanllechid yn ystod eu triniaethau meddygol ar ôl newyddion annymunol ar ddiwedd mis Mawrth.

**Clwb Llanllechid**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb yng Nghapel Carmel fel arfer. Cafwyd ymddiheuriadau gan nifer oedd yn methu bod yn bresennol. Braf oedd rhoi croeso cynnes yn ôl i'r clwb i Avril sydd wedi bod yn sâl ers peth amser, a hefyd croesawyd aelod newydd atom sef Mrs Eirwen Roberts.

Y siaradwr oedd Mrs Jennifer Roberts, a chafwyd sgwrs ardderchog ganddi am ei gwaith fel gweithiwr plant, ieuenctid a swyddog teuluoedd Henaduriaeth Conwy, Dyfrdwy a Phenllyn.

Blodwen a Glenys Rowlands a roddodd y te.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 24.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**
Cafwyd darlith arbennig gan y Prifardd Ieuan Wyn yn ysgoldy Carmel, Rachub yng nghyfarfod Mis Mawrth o'r Clwb Hanes. Cawsom ein tywys ar daith hudolus 'I Ben Lôn Bronnydd' gan Ieuan [a'i ferch, Menna a oedd yn gofalu am y taflunydd a'r ffotograffau priodol], - taith a ddangosodd i ni gyfoeth o enwau caeau, ffyrdd, ffermydd, a llwybrau, - enwau oedd â storïau neu hanesion yn gysylltiedig â nhw, llawer ohonynt, yn anffodus, wedi diflannu erbyn hyn. Mae yna hud mewn enwau fel Pant y Lladron, Llyn Coch, Bryn Picyll, Bodfeio, Mignant, Sychnant, a Cae Ffeltiwr, ac mae mor bwysig bod rhain yn parhau ar gof a chadw.

Gŵyr pawb fod Lôn Bronnydd yn le bendigedig i fynd am dro, ond pwy oedd yn gwybod mai dyma oedd un o hoff lefydd y bardd R. Williams Parry a'i gyfeillion J.O. Williams [awdur Llyfr Mawr y Plant], J.J.Williams a Ben Fardd? Yma y cafodd Bardd yr Haf ei ysbrydoli i ysgrifennu 'Clychau'r Gôg', 'Y Peilon' a'r 'Gylfinir'. A pha ryfedd, o wybod am y byd natur anhygoel oedd yn yr ardal?

Yng Nghae'r Ffynnon y magwyd y cerddor 'Eos Llechid', chwarelwr cyffredin o'r 19eg ganrif, a drwythodd ei hun mewn rheolau cerddoriaeth, - nes dod yn awdurdod yn y maes a chael ei benodi'n hyfforddwr corau eglwysig yn Llandaf, ac yn un o feirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol!

Diddorol iawn oedd y ddelwedd a gawsom o olygfeydd o'r Oesoedd Canol yn yr ardal, - mae'n debyg y gwelid ceirw'n crwydro'r ucheldir, a buchesi'r Tywysogion Cymraeg yn pori'r tir isel. Mae'n ddigon posib bod cynhebryngau brenhinol i'w gweld ar y pryd, gyda llongau'n cludo'r ymadawedig [e.e. Siwan, Eleanor] dros y Fenai i Llanfaes i'w claddu.

Roedd hon yn ddarlith bwysig, - diolch, Ieuan, am ei thraddodi mor wych, ac edrychwn ymlaen iddi gael ei chyhoeddi!

Cyfarfod nesaf, - Ebrill 24, 'Cipolwg ar rai o gerddorion Rachub a Llanllechid',- Mr Caleb Rhys Jones.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**
Nos Fercher, Ebrill 24am 7.00
yn Festri Capel Carmel.

**Cipolwg ar rai o Gerddorion**
***Mr. Caleb Rhys Jones.***
CROESO CYNNES!


**Capel Carmel**
*Trefn Gwasanaethau*
*(am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*
Ebrill 21(Sul y Pasg): Oedfa.
Ebrill 28: Gweinidog.
Mai 5: Gweinidog (Cymun)
Mai 12: Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 19: Oedfa Ysgolion Sul
(Bethlehem am 10.30yb)

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, Mai 20. (2.30 – 4.00yp.)
Croeso cynnes i bawb..

Anfonwn ein cofion fel Eglwys at yr aelodau sy'n sâl , boed gartref neu yn yr ysbyty.
Ar brynhawn Sul, 24 Chwefror, gyda'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu, bedyddiwyd Dafydd Elis Sherlock, mab Anwen a Daniel, Llwyn Bedw, a brawd bach i Elliw. Pob bendith arnoch fel teulu!

Bu i'r Eglwys golli dwy aelod ffyddlon yn ddiweddar. Ar 26 Chwefror bu farw Mrs. Phyllis Mary Parry, FFordd Ffrydlas, ac yna ar 25 Mawrth bu farw Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi. 'Rydym fel Eglwys yn anfon ein cydymdeimlad atoch i gyd fel dau deulu yn eich profedigaeth o golli mam, nain, a hen nain annwyl.

*Y Plant a'r Ieuenctid*
Daeth cynulleidfa ardderchog i oedfa Gŵyl Ddewi plant ac ieuenctid Carmel fore Sul, 3 Mawrth. Cafwyd ganddynt ddarlleniadau o'r Beibl, gweddiau a chanu hwyliog ynghyd â datganiadau hyfryd ar y soddgrwth a'r delyn. Wedi'r oedfa cafwyd paned a lluniaeth ysgafn a sgwrs yn yr Ysgoldy.
Yn ystod yr oedfa 'roedd Dai a William yn darllen deg darn o'r Testament Newydd a deg emyn, ac 'roedd teulu a ffrindiau wedi eu noddi nhw i wneud hynny. Cyfanswm y noddi, y casgliad a'r "Cadwyn Cariad o Gymru i Fadagascar" oedd £400.00. 'Roedd yr arian i gyd yn cael ei roi tuag at Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



**Y plant a'r Ieuenctid yn ystod yr Oedfa Gŵyl Ddewi ar 3 Mawrth**

*Te Bach Mis Mawrth*

Roedd y te bach ym mis Mawrth yn arbennig tuag at rodd ariannol i Morgan Hughes, Tregarth. Mae Morgan yn disgwyl am drawsblaniad iau arall mewn ysbyty yn Birmingham. 'Rydym yn dymuno'n dda iddo fo a'i deulu hefyd. Diolch i bawb am eu rhoddion ariannol ac am roi nwyddau i'w gwerthu, a diolch i bawb wnaeth helpu a chefnogi'r te bach. Gwnaed elw o £450.00.

*Clwb Dwylo Prysur*

Ar nos Wener, 29 Mawrth, daeth y Parchedig Huw John Hughes atom ni i'r Clwb. 'Roeddem ni wedi bod yn darllen gweddiau o'i lyfr "Cwlwm Celtaidd" ac wedi gwneud darnau amrywiol o waith llaw â phatrymau Celtaidd. 'Roeddem wedi cael cerrig glan y môr o Ynys Enlli a bu'r aelodau yn paentio Croesau Celtaidd arnyn nhw. Yn ogystal â hynny mi fuo'n ni'n llunio ein gweddiau ein hunain yn y dull Celtaidd. Soniodd Huw John Hughes yn ddifyr iawn am yr adeg pan dreuliodd fis ar Ynys Enlli.

Yna fe gawsom ni baned a rhywbeth i'w fwyta. Diolch yn fawr iawn am yr hanes Mr. Hughes, ac am ddod atom ni ar nos Wener.



**Y Parchedig Huw John Hughes gyda'r ieuenctid**

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm


Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

**Noson Cwis** Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00

Oriau Agor
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



## Gwobrau Busnes Gwynedd – cyflwyno'ch ceisiadau

Mae'r amser wedi dod i baratoi ar gyfer Gwobrau Busnes Gwynedd. Gyda'r dyddiad cau, dydd Mawrth 30 Ebrill yn prysur agosau, mae cyfle i bob busnes annibynnol yng Ngwynedd gyflwyno cais gan dderbyn cydnabyddiaeth am eu llwyddiant a'u cyfraniad i'r economi leol.

"Mae pum gwobr ar gael eleni, a byddwn yn annog pob busnesau annibynnol yng Ngwynedd i wneud cais. Bydd y beirniaid yn edrych am lwyddiannau eithriadol a photensial i dyfu, yn ogystal â thystiolaeth o gyfraniad y busnes i economi, bywyd cymuned a chynaladwyedd amgylcheddol y sir."

Gwobrau Busnes Gwynedd fydd uchafbwynt Wythnos Busnes Gwynedd 2019, sy'n cael ei chynnal rhwng 20 a 24 Mai. Mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau wedi eu cynllunio ar gyfer hyrwyddo›r sector fusnes yng Ngwynedd ac i gefnogi cwmniau lleol a chyfleoedd hyfforddiant yng Ngwynedd.

Os hoffech chi ymgeisio, mae ffurflenni cais ar gael ar-lein ar https://www.bangor.ac.uk/management_centre/gwynedd-business-week/index.php.cy neu cysylltwch gyda Thîm Gwobrau Busnes Gwynedd ar 01248 365912 neu e-bostio ffion.jones@bangor.ac.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio ydi 30 Ebrill 2019. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yng Nghinio Gala'r Gwobrau yn y Ganolfan Reolaeth, Bangor ar nos Iau, 23 Mai 2019. Mae tocynnau ar gyfer y noson ar gael drwy ffonio 01248 365912.

# Newidiadau i Gabinet Cyngor Gwynedd

Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, wedi cyhoeddi newidiadau i aelodaeth a chyfrifoldebau Cabinet y Cyngor.

Mae dau aelod newydd wedi eu penodi i Gabinet Cyngor Gwynedd: y Cynghorydd Catrin Wager (Bangor – Menai) fydd yn arwain ar faes Priffyrdd a Bwrdeistrefol, a'r Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Caernarfon – Cadnant) a fydd yn gyfrifol am faes Addysg. Byddant yn dechrau ar eu gwaith ar 1 Ebrill pan fydd y Cynghorydd Peredur Jenkins a'r Cynghorydd Gareth Roberts yn camu lawr o'r Cabinet yn dilyn cyfnod hir o wasanaeth.



**Y Cynghorydd Catrin Wager, sydd wrth gwrs, yn byw ym Methesda.**

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

**Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)




DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

# CHWILAIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | A | A | W | F | H | C | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J |
| R | U | I | S | V | S | L | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z |
| Y | S | M | X | R | V | W | ~~**A**~~ | ~~**D**~~ | ~~**R**~~ | ~~**E**~~ | A | D | D | N | **A** | P | A | U | Q |
| N | G | U | S | Y | O | B | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H | C | U | M | W |
| H | O | N | O | A | Y | G | R | I | A | S | Z | U | T | S | F | A | D | X | U |
| A | R | P | W | N | R | A | H | C | Q | H | W | E | E | H | O | R | Y | E | E |
| W | I | G | E | A | O | R | M | H | E | P | T | N | T | C | B | F | B | C | U |
| N | O | U | J | R | P | D | L | T | M | I | A | V | V | D | C | O | B | B | F |
| D | R | F | O | O | G | D | J | V | I | H | I | R | R | R | X | R | I | M | H |
| A | T | T | O | N | S | I | K | O | O | P | W | A | R | C | D | D | M | K | C |
| B | O | R | C | N | X | O | V | H | R | Y | W | H | S | N | T | I | M | R | E |
| F | Y | J | D | I | Z | H | C | B | C | D | W | O | W | S | U | R | C | R | A |
| I | X | N | I | E | L | A | X | J | E | E | J | O | M | B | R | C | W | T | E |
| X | M | D | X | K | B | F | U | B | F | P | R | C | Q | Y | M | Y | O | I | L |
| F | E | R | Z | N | Q | R | R | A | O | A | C | T | D | G | Y | M | W | S | L |
| Z | E | B | R | E | A | A | O | J | D | K | J | C | L | N | G | R | L | R | V |
| O | G | A | J | P | D | F | W | N | P | G | S | O | W | J | I | U | J | Q | U |
| L | D | F | S | Y | V | T | W | X | E | U | G | H | S | L | N | Z | E | A | F |
| X | I | W | B | T | Z | O | H | P | A | W | B | A | I | F | A | R | N | K | V |
| A | G | Y | B | N | R | K | A | D | S | I | K | O | G | D | C | H | B | S | I |

## Mwy o raglenni S4C

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG RHAGLEN SYDD WEDI/YN YMDDANGOS AR S4C i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn EBRILL 30 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Daeth eich ateb chi, Mr a Mrs Hughes, Abergele yn hwyr trwy'r post gan fod y cyfeiriad anghywir ar yr amlen. 7, RHOS Y COED nid 7 Rhos y Nant yw'r cyfeiriad cywir, er fod enw'r cartref a'r côd post yn iawn ar yr amlen. Llawer iawn ohonoch yn adnabod cymeriadau Pobl y Cwm yn dda.

**Dyma atebion Mawrth:** Brit Monk; Chester Monk; Colin Evans; Debbie Collins; Dolores Collins; Dr. Elgan Pritchard; Ffion Llywelyn; Hannah Francis; Jason Francis; Jim Probert; Josh Smith; Megan Harries. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elfed Bullock, Bethesda; Gwenda Bowen, Gerlan; Shaun Osian Hughes, Bethesda; Gwenda Roberts, Ynys Môn; Gwen Davies, Bethesda; Glenys Jones, Rhiwlas; Myfanwy Jones, Ynys Môn; Dorris Shaw, Bangor; Olive Williams, Bethesda; Carys Parry, Glan Ogwen; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Alwyn Rowlands, Tregarth; Maureen Evans, Talybont; Marilyn Jones, Bethesda; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. **Enillydd Mawrth oedd:** Olive Williams, 6 Maes y Garnedd, Bethesda.

# Sôn am Sgiffl ar Radio Cymru

## gyda Neville Hughes

Ar nos Lun, 1 Ebrill, mi gefais y pleser o fynd i stiwdio BBC Radio Cymru ym Mryn Meirion, Bangor. Rhys Mwyn oedd wedi fy ngwahodd i sgwrsio ar ei raglen. Ie, sgwrsio am Sgiffl gan fynd yn ôl yn y cof i bumdegau'r ganrif ddiwethaf, ac mi fum yn hel atgofion hefo Rhys am tua tri chwarter awr. Diolch i Rhys am ei groeso cynnes a chartrefol!

Er bod trigain mlynedd a mwy wedi mynd heibio, 'roedd yr atgofion yn llifo. Cofio i Hogia' Llandegai gychwyn fel Criw Sgiffl Llandegai ym mis Ebrill 1957 yn hen ysgol Tŷ'n Twr, a chael cystal croeso yno nes i ni benderfynu cario 'mlaen i ganu. Wrth gwrs, 'roedd dylanwad Lonnie Donegan ac eraill yn drwm yn y cyfnod hwnnw, ac fe gawsom gryn hwyl yn canu rhai o'i ganeuon ar y cychwyn cyn dechrau troi at sgifflo yn Gymraeg.

Fe barhaodd Criw Sgiffl Llandegai i fynd tan tua 1964/65, ac mae'r hanes wedi ei gofnodi yn fy llyfr " Hogia' Llandegai – Y Llyfr" a gyhoeddwyd yn Hydref 1996.

Wyth ohonom ddaeth at ei gilydd yn ôl yn 1957, gydag offerynnau syml iawn fel pren golchi, bas cist de, dwy lwy bwdin, organ geg, gan ychwanegu'r gitâr, a dyma lun o'r cyfnod difyr hwnnw.




**O'r chwith: Owen Morris a Richie Griffiths (organ geg yr un), John Meredydd Thomas (Pren golchi), Elwyn Thomas, (bas cist de), Ronnie Williams (prif leisydd), Now (yn cuddio tu ôl i Ron), Roy Astley (gitâr) a Neville Hughes (gitâr).**

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

**Llais Ogwan**
Dilynwch ni ar trydar



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
**williamshy@parliament.uk**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

**JR SGAFFALDIAU Cyf.**
**SCAFFOLDING Ltd.**
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

# Chwaraeon

**Ymfalchio**

Ie, dyna fy mhrofiad o ymweld â chae pêl-droed Mynydd Llandygái am y tro cyntaf. Yr achlysur oedd gêm 3edd rownd Cwpan Mawddach rhwng Mynydd a Llanrug. Â Mynydd wedi ennill ar Eithin Duon yn y gynghrair, roedd pwyth i'w dalu. Gyda'r gwynt a'r smwclaw yn llifo i lawr o'r Marchlyn roedd yr elfennau yn heriol, ond cafwyd chwip o gêm. Yn wir, fe chwaraeodd y ddau dîm yn well tra'n herio'r elfennau. Mwy pwyllog, gwell cefnogi a phasio slic. Anodd iawn oedd rheoli'r bêl â'r gwynt yn ei chario. Syndod nad oedd mwy o ergydion am gôl, ond pan ddeuai'r ergydion roedd perfformiadau'r ddau gôl-geidwad yn benigamp. Nid ydynt y talaf, ond maent yn ddewr, a'r gallu i arbed yn elfen gref o'u chwarae. Hefyd, y ddau amddiffynnwr canol, Terry Williams (Llanrug), seren y gêm, a'r Monwysyn Dylan Williams, cefnwr addawol Mynydd. Heb os, bydd timau uwch yn y pyramid yn cadw golwg ar ddatblygiad y chwaraewr ifanc dawnus a hyderus yma. Hen ben ar ysgwyddau ifanc, yn sicr. Yn y dorf roedd is-reolwr clwb Dinas Bangor, yno'n sicr i fwrw golwg ar yr ambell chwaraewr ifanc addawol. Ai hyn yw dechrau polisi newydd clwb y ddinas trwy ddatblygu tîm lleol ar gyfer y dyfodol?

Y sgôr derfynol mewn gêm agos iawn 2-1 i Lanrug – Cion Jones gyda'r gôl allweddol ar yr awr. Ond yr ymfalchïo roeddwn i eisiau ei bwysleisio yn bennaf – yn ymdrechion hogiau Mynydd a'r gymuned. Wedi bod yn dîm crwydrol, diolch i grantiau'r Loteri a'r Chwarel gerllaw, creu cartref allan o gors. Gwyneb da i'r cae. A'r gefnogaeth. Croeso wrth y giât a'r cwt panad. Criw lleol da yn cefnogi'r ddau dîm. Awyrgylch gêm ddarbi go iawn. A reff o Lanberis. Braf oedd clywed " Ty'd 'laen, Cwil!" yn hytrach na'r " C'mon reff " arferol. Mae'r awyrgylch Cymreig yma yn codi calon. Braf oedd gweld nifer o 'hen chwaraewyr' yno yn y dorf, rhai yn cefnogi eu meibion ar y cae. Cefais bnawn difyr yn hel atgofion. Braf gweld hefyd criw o hen gefnogwyr Bethesda yno yn cefnogi Mynydd. Hwy bellach yw Tîm y Dyffryn, dybiwn i. Diolch i'r ddau dîm am gêm llawn ymdrech i'n cynhesu ar bnawn Sadwrn oer.

**Richard Llwyd Jones**

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau mawr i dîm "Byw'n Iach" Plas Ffrancon a fu'n fuddugol yn y gwobrau "Cyngor ar eu Gorau"! Wedi ennill y categori "Gwerth Gorau"!

Mae'r wobr yn adlewyrchu'r ffordd mae'r tîm wedi cydweithio i gynyddu a gwella rhaglen y ganolfan, tra ar yr un pryd wedi codi safonau yn sgil asesiad Quest amser yma llynedd. Wedi mynd o'r 12fed safle o ran ein trefn Monitro fewnol i'r categori uchaf mewn blwyddyn!

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer

**Ronald Jones**

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.



Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn

Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru